



Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol

Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol

Hydref 2017

© Hawlfraint y Goron 2017

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence> neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at y Comisiwn yn comffin.cymru@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael ar ein gwefan hefyd yn www.comffin-cymru.gov.uk

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol

Gorffennaf 2017

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 0BL
Ffôn: 02920 464819
E-bost: comffin.cymru@llyw.cymru
Gwefan: www.comffin-cymru.gov.uk

Cynnwys

1	Cyflwyniad	1
	Y Comisiwn Ffiniau i Gymru	1
	Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol	1
	Y Comisiynwyr Cynorthwyol	2
	Cynrychiolaethau Ysgrifenedig	2
	Gwrandawiadau Cyhoeddus	3
2	Trosolwg	4
	Cyflwyniad	4
	Dull y Comisiynwyr Cynorthwyol	4
	Prif Themâu	6
3	Argymhellion ar gyfer Newidiadau i'r Etholaethau Arfaethedig yng Nghymru	8
	Cyflwyniad	8
	Canolbarth a Gogledd Cymru	8
	De-ddwyrain Cymru	14
	De-orllewin Cymru	19
	Gorllewin Cymru	26
	Enwau	27
	Casgliad	30
	Atodiad A: Etholaethau Arfaethedig yn ôl Wardiau Etholiadol a Nifer yr Etholwyr	31
	Atodiad B: Rhestr o Gynrychiolaethau Ysgrifenedig	50
	Atodiad C: Bywgraffiadau'r Comisiynwyr Cynorthwyol	58

1. Cyflwyniad

Y Comisiwn Ffiniau i Gymru

- 1.1. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn gorff cyhoeddus anadrannol ymgynghorol a ariennir yn llawn gan Swyddfa'r Cabinet. Mae'r Comisiwn wedi'i sefydlu o dan Adran 2 ac Atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Systemau Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011.
- 1.2. Prif swyddogaeth statudol y Comisiwn yw cadw dosbarthiad seddau mewn etholiadau Seneddol dan arolwg yn barhaus, cynnal arolygon rheolaidd o ffiniau etholaethau Seneddol, a llunio adroddiadau ag argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unol â darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd).
- 1.3. Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yw cadeirydd *ex-officio* y pedwar Comisiwn Ffiniau Seneddol yn y Deyrnas Unedig. Mae penodi'r Llefarydd yn pwysleisio annibyniaeth, didueddrwydd a'r natur anwleidyddol. Nid yw'r Llefarydd yn chwarae unrhyw ran mewn cynnal yr arolygon. Mae'r Dirprwy Gadeirydd, sy'n llywyddu'r cyfarfodydd, yn Farnwr yn yr Uchel Lys: yr Anrhydeddus Mr Ustus Clive Lewis. Yr Aelodau yw Mr Paul Loveluck CBE a'r Athro Robert McNabb.

Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol

- 1.4. Gwnaeth Deddf Systemau Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 newidiadau sylweddol i'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu dosbarthiad seddau Seneddol yn y DU. Mae'r Ddeddf yn lleihau nifer yr etholaethau yng Nghymru o 40 i 29 ac yn mynnu bod gan bob etholaeth nifer debyg o etholwyr cofrestredig (rhwng 71,031 a 78,507).
- 1.5. Ar 24 Mawrth 2016, cyhoeddodd y Comisiwn ddechrau Arolwg 2018 o'r Etholaethau Seneddol yng Nghymru, ac ar 13 Medi 2016, cyhoeddodd y Comisiwn ei Gynigion Cychwynnol. Hwn oedd dechrau proses ymgynghori lle mae'r Comisiwn wedi gofyn i drigolion Cymru helpu i ffurfio'r etholaethau Seneddol diwygiedig. Roedd y Comisiwn wedi cyhoeddi Arolwg yn 2013 a oedd yn cynnwys newid o 40 o etholaethau i 30, ond gan ddefnyddio data etholiadol gwahanol. Felly, nid oedd modd defnyddio'r cynigion a'r cynrychiolaethau a wnaed yn 2013 ar gyfer Arolwg 2018.
- 1.6. Roedd lansio'r cynigion cychwynnol yn cynrychioli dechrau ymgynghoriad 12 wythnos, pan wahoddwyd y cyhoedd i gyflwyno eu cynrychiolaethau'n ysgrifenedig neu fynychu un o bum gwrandawriad cyhoeddus a gynhaliwyd ledled Cymru, neu wneud y ddau ohonynt.
- 1.7. Ar 28 Mawrth 2017, cyhoeddodd y Comisiwn yr holl ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol hwn o 12 wythnos. Yna, roedd cyfnod

statudol ychwanegol o bedair wythnos ar gael i unigolion a sefydliadau wneud sylwadau ar y cynrychiolaethau a wnaed gan bobl eraill.

Y Comisiynwyr Cynorthwyol

- 1.8. Mae Atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol, ar gais ar y Comisiwn, benodi un neu ragor o Gomisiynwyr Cynorthwyol i helpu'r Comisiwn i gyflawni ei swyddogaethau. Penodwyd tri Chomisiynydd Cynorthwyol ar gyfer Arolwg 2018 yng Nghymru. Rôl y Comisiynwyr Cynorthwyol oedd cadeirio'r gwrandawiadau cyhoeddus a llunio adroddiad annibynnol a diduedd i'r Comisiwn ar sail y cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn y gwrandawiadau ac yn ysgrifenedig.
- 1.9. Ar gyfer Arolwg 2018, Mr Gerard Elias QC, Mr Rhodri Price Lewis QC a Mr Emyr Wyn Jones fu'r Comisiynwyr Cynorthwyol. Detholwyd y Comisiynwyr Cynorthwyol trwy gystadleuaeth gyhoeddus agored. Mr Elias oedd y Comisiynydd Cynorthwyol Arweiniol ac a gadeiriodd y gwrandawiadau cyhoeddus, ond fe ymddiswyddodd ym Mai 2017 a phenodwyd Mr Rhodri Price Lewis QC yn ei lle. Gweler Atodiad C am ragor o wybodaeth am y Comisiynwyr Cynorthwyol.
- 1.10. Mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli barn y Comisiynwyr Cynorthwyol ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ac ar lafar mewn gwrandawiadau cyhoeddus yn ystod y broses ymgynghori. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r newidiadau y mae'r Comisiynwyr Cynorthwyol yn eu hargymell i gynigion cychwynnol y Comisiwn, a'r Comisiwn fydd yn penderfynu p'un a ddylid mabwysiadu'r newidiadau hynny ai peidio.
- 1.11. Wrth lunio'r adroddiad hwn, mae'r Comisiynwyr Cynorthwyol wedi trin pob cynrychiolaeth yn gyfartal. Mae cynrychiolaethau a wnaed yn ysgrifenedig, yn Gymraeg neu'n Saesneg, wedi cael yr un ystyriaeth â'r rhai a wnaed ar lafar mewn gwrandawiadau cyhoeddus.

Cynrychiolaethau Ysgrifenedig

- 1.12. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, derbyniodd y Comisiwn 504 o gynrychiolaethau ysgrifenedig. Ceir rhestr lawn o'r cynrychiolaethau yn Atodiad B.
- 1.13. Yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori, derbyniodd y Comisiwn 294 o gynrychiolaethau ysgrifenedig. Ceir rhestr lawn o'r cynrychiolaeth yn Atodiad B.

Gwrandawiadau Cyhoeddus

- 1.14. Cynhaliwyd pum gwrandawriad cyhoeddus yn ystod Hydref a Thachwedd 2016. Mae Tabl 1 yn dangos nifer y rhai a oedd yn bresennol ym mhob gwrandawriad.

Tabl 1: Presenoldeb yng Ngwrandawiadau Cyhoeddus Arolwg 2018

Gwrandawriad	Diwrnod	Siaradwyr	Yn bresennol	Cyfansymiau	
Caerfyrddin 12 - 13 Hydref 2016	1	9	12	21	
	2	3	5	8	29
Bangor 19 - 20 Hydref 2016	1	4	8	12	
	2	4	7	11	23
Caerdydd 26 – 27 Hydref 2016	1	18	33	51	
	2	12	27	39	90
Llandrindod 2 - 3 Tachwedd 2016	1	2	6	8	
	2	6	8	14	22
Wrecsam 9 – 10 Tachwedd 2016	1	6	14	20	
	2	10	14	24	44
	Cyfansymiau	74	134	208	

2. Trosolwg

Cyflwyniad

- 2.1. Ar hyn o bryd, mae 40 o etholaethau seneddol yng Nghymru. Mae'r etholaethau hyn yn cynnwys wardiau etholiadol o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r Comisiwn, yn unol â'r ddeddfwriaeth y cyfeiriwyd ati ym Mhennod 1, wedi llunio Cynigion Cychwynnol ar gyfer 29 etholaeth yng Nghymru. Ni wnaethom ni, fel Comisiynwyr Cynorthwyol, gyfrannu at baratoi Cynigion Cychwynnol y Comisiwn.
- 2.2. Rydym wedi ystyried y Cynigion Cychwynnol a'r holl gynrychiolaethau ysgrifenedig a llafar a dderbyniwyd, ac rydym yn cynnig gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r Cynigion Cychwynnol. Er hwylustod, yn yr adroddiad hwn, caiff yr argymhellion a wnawn eu hystyried trwy gyfeirio at bedwar rhanbarth eang, sef Canolbarth a Gogledd Cymru, De-ddwyrain Cymru, De-orllewin Cymru a Gorllewin Cymru. Rydym yn ymdrin â chanolbarth a gogledd Cymru gyda'i gilydd oherwydd y mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng yr etholaethau arfaethedig yng nghanolbarth a gogledd Cymru. O bryd i'w gilydd, mewn ardaloedd eraill, bydd yr etholaethau arfaethedig yn ymestyn ar draws mwy nag un rhanbarth.
- 2.3. Amlinellwn isod ein dull cyffredinol ar gyfer y dasg o wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r Cynigion Cychwynnol. Yna, amlinellwn drosolwg o'r prif faterion y daethom ar eu traws wrth ystyried y cynrychiolaethau a wnaed ar yr etholaethau arfaethedig yng Nghymru. Yna, ym Mhennod 3 yr adroddiad, amlinellwn sail ein hargymhellion ar gyfer newidiadau i'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer ffiniau etholaethau yng Nghymru. Mae'r Comisiwn wedi cynnig (fel roedd yn ofynnol iddo ei wneud) enw a dynodiad ar gyfer pob un o'r etholaethau yn ei Gynigion Cychwynnol. Gwnaed cynrychiolaethau yn awgrymu enwau gwahanol i'r rhai a gynigiwyd gan y Comisiwn. Yn ogystal, mae rhai o'n newidiadau arfaethedig i gynigion y Comisiwn yn golygu nad yw'r enw gwreiddiol yn briodol mwyach. Fe wnawn ein hargymhellion ar gyfer enwau ar ôl i ni amlinellu ac esbonio ein hargymhellion ar gyfer ffiniau'r etholaethau. Gwneir ein hargymhellion ynghylch dynodiad yn Atodiad A.

Dull y Comisiynwyr Cynorthwyol

- 2.4. Mae'r ddeddfwriaeth y cyfeiriwyd ati ym Mhennod 1 yr adroddiad hwn yn amlinellu'r rheolau statudol sy'n llywodraethu dosbarthiad etholaethau seneddol. Cyflwynodd y ddeddfwriaeth newydd ofynion ar gyfer nifer benodol o etholaethau, ac mae'n rhoi terfyn uchaf ac isaf ar nifer yr etholwyr mewn unrhyw etholaeth, ac eithrio mewn perthynas â phedair etholaeth warchoddedig sydd y tu allan i Gymru. Yn ôl y gyfraith, rhaid i bob etholaeth yng Nghymru fod o fewn $\pm 5\%$ o gwota etholiadol y DU, sef 74,769 etholwyr ym mhob etholaeth. Mae hyn yn golygu bod rhaid i bob etholaeth yng Nghymru gynnwys rhwng 71,031 a 78,507 o etholwyr (yr amrediad etholwyr statudol).

- 2.5. Bydd cymhwyso'r amrediad etholwyr statudol newydd yn mynnu newidiadau helaeth a phellgyrhaeddol yng Nghymru. Yn amodol ar sicrhau bod pob etholaeth yn disgyn o fewn yr amrediad etholwyr a ganiateir, mae'r ddeddfwriaeth yn amodi y gall y Comisiwn ystyried y pedwar ffactor canlynol:¹
- a. Ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys maint, ffurf a hygyrchedd etholaeth;
 - b. Ffiniau llywodraeth leol fel yr oeddent ar 7 Mai 2015;
 - c. Ffiniau etholaethau presennol; ac
 - ch. Unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau.
- 2.6. Yn erbyn y cefndir hwnnw, rydym wedi ceisio, lle bynnag y bo'n bosibl, argymhell newidiadau i'r Cynigion Cychwynnol a fydd, yn ein barn ni, yn sicrhau bod etholaethau arfaethedig yn adlewyrchu'r meini prawf statudol a amlinellir uchod yn well (wrth sicrhau bod pob etholaeth arfaethedig yn disgyn o fewn yr amrediad etholwyr a ganiateir, sef 71,031 a 78,507 o etholwyr).
- 2.7. Rydym wedi darllen yr holl gynrychiolaethau ysgrifenedig a thrawsgrifiadau'r gwrandawiadau cyhoeddus, ynghyd â'r holl ddeunydd ysgrifenedig a roddwyd i'r Comisiynydd Cynorthwyol Arweiniol a staff y Comisiwn yn y gwrandawiadau cyhoeddus. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r bobl niferus y mae'n siŵr eu bod wedi rhoi cryn amser ac ymdrech i baratoi eu cynrychiolaethau. Rydym hefyd yn ddiolchgar i'r rhai a ymddangosodd yn y gwrandawiadau cyhoeddus am gyflwyno eu cynrychiolaethau mewn modd cryno, a alluogodd i'r holl gynrychiolaethau gael eu clywed yn briodol wrth gadw at y terfyn o ddau ddiwrnod ar gyfer pob gwrandawriad oedd yn ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod y cyfyngiadau a osodir gan y ddeddfwriaeth yn golygu bod yr argymhellion y byddwn yn eu cynnig i'r Cynigion Cychwynnol yn annhebygol o fodloni dymuniadau pawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad.
- 2.8. Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi ymdrin â'r hyn yr ydym ni'n ei ystyried yw'r prif faterion a'r prif bwyntiau sydd wedi deillio o'r holl gynrychiolaethau a wnaed. Nid ydym, felly, wedi gwneud sylwadau ar yr holl gynrychiolaethau a wnaed ond rydym, serch hynny, wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau wrth ddod i'n casgliadau a gwneud ein hargymhellion.
- 2.9. Teimlwn y dylem gofnodi'r nifer fawr o gynrychiolaethau a wnaed yn erbyn y gostyngiad arfaethedig i nifer yr etholaethau yng Nghymru, gan ddadlau y byddai rhai o'r etholaethau arfaethedig canlyniadol yn fawr iawn o ran eu harwynebedd, gan ei gwneud yn anodd i Aelodau Seneddol gadw cysylltiad priodol â'u hetholwyr. Roedd rhai yn dadlau am fwy o hyblygrwydd o ran nifer yr etholwyr a ganiateir mewn etholaethau. Hefyd, tynnodd cynrychiolaethau sylw at y ffaith y bu refferendwm ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd ers dyddiad yr arolwg, sef Rhagfyr 2015 (a bu etholiad cyffredinol erbyn hyn hefyd), yr arweiniodd y ddau ohonynt at

¹ Caiff ffactor pellach – 'yr anghyfleusterau sy'n dilyn y cyfryw newidiadau' - ei eithrio'n arbennig ar gyfer Arolwg 2018, ond gellir ei ystyried ar gyfer arolygon dilynol.

ychwanegu nifer fawr o etholwyr newydd at y gofrestr etholiadol nad ydynt wedi eu cynnwys yn yr arolwg presennol hwn. Nid ydym yn teimlo y gallwn wneud unrhyw argymhellion i ymateb i'r cynrychiolaethau hyn, oherwydd y mae'r Rheolau a amlinellir yn Atodlen 2 i Ddeddf 2011 yn rhagnodi'r materion y gallwn eu hystyried. Dan yr arolwg hwn, rhaid i bob etholaeth fod â nifer etholwyr ar ddyddiad yr arolwg nad yw'n llai na 95% neu'n fwy na 105% o gwota etholiadol y DU, sef 74,769. Felly, yn unol â'r Rheolau hynny, rhaid i nifer yr etholaethau yng Nghymru gael ei lleihau o 40 i 29, rhaid i bob etholaeth yng Nghymru gynnwys nifer etholwyr ar ddyddiad yr arolwg nad yw'n llai na 71,931 neu'n fwy na 78,507, ac ni ellir rhoi unrhyw ystyriaeth i newidiadau i faint yr etholaethau ar ôl dyddiad yr arolwg.

Prif Themâu

- 2.10.** Mae'r prif themâu sydd wedi dod i'r amlwg o'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd gennym fel a ganlyn.
- 2.11.** Yn gyntaf, bu pryder ynghylch y cynigion ar gyfer etholaethau yng ngogledd Cymru. Ni chynigir i Ynys Môn ffurfio un etholaeth mwyach, ond iddi gael ei hychwanegu at wardiau etholiadol o dir mawr Cymru i ffurfio un etholaeth newydd, fwy. Hefyd, ceir pryderon ynghylch pa wardiau etholiadol y dylid eu hychwanegu. Mae cynrychiolaethau wedi mynegi pryderon ynghylch maint etholaeth arfaethedig Gogledd Clwyd a Gwynedd, y bwriedir iddi ymestyn o Aberdyfi yn y de-orllewin, ac o Aberdaron yn y gorllewin, i Lanelwy a Thremeirchion yn y gogledd-ddwyrain. Mynegwyd pryderon penodol ynghylch etholaeth Vale of Clwyd yn diflannu a'i wardiau etholiadol yn cael eu dosbarthu rhwng tair etholaeth newydd. Roedd colli etholaeth Montgomeryshire a chynnwys rhai o'i wardiau etholiadol mewn un etholaeth newydd, sef De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn, a oedd yn cynnwys Y Bala a Machynlleth, ond nid Llanidloes a Blaen Hafren, a chynnwys wardiau eraill yn etholaeth arfaethedig newydd Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn, yn destun nifer o gynrychiolaethau.
- 2.12.** Yn y de, roedd pryderon ynghylch Caerllion yn ffurfio rhan o Dorfaen ac yn peidio â chael ei chynnwys yng Nghasnewydd.
- 2.13.** Cafwyd cynrychiolaethau hefyd yn ymwneud â threfniant etholaethau yng nghymoedd de Cymru.
- 2.14.** Yng Nghaerdydd, cafwyd cynrychiolaethau yn erbyn y cynnig i gael gwared â Phenarth o etholaethau Caerdydd; yn erbyn cynnwys Pontpennau/Yr Hen Laneirwg yn etholaeth De a Dwyrain Caerdydd yn hytrach nag yn etholaeth Gogledd Caerdydd; ac yn erbyn rhoi Grangetown a Butetown mewn etholaethau gwahanol.
- 2.15.** Ymhellach i'r gorllewin, cafwyd nifer fawr o gynrychiolaethau yn erbyn rhoi Port Talbot ac Aberafan mewn etholaethau ar wahân; ac yn erbyn rhoi'r wardiau sy'n ffurfio Sgiwen yn etholaeth Gorllewin Abertawe yn hytrach nag etholaeth Castell-nedd ac Aberafan.

- 2.16. Roedd pryderon penodol ynghylch y modd yr oedd Lluchwr, Pontybrenin, Llangyfelach, Penlle'r-gaer a Gorseinon wedi'u rhannu rhwng Llanelli ac Abertawe.
- 2.17. Yng Ngheredigion a Gogledd Sir Benfro, mynegwyd pryderon penodol ynghylch cynnwys Llanidloes a Blaen Hafren, yr ystyriwyd bod ganddynt gysylltiadau gwell â'r dwyrain.
- 2.18. Cafwyd cynrychiolaethau hefyd yn ymwneud â wardiau etholiadol penodol, neu grwpiau o wardiau etholiadol, heblaw i'r rheiny y cyfeirir atynt uchod. Ystyriwyd pob un o'r cynrychiolaethau hynny'n ofalus hefyd.
- 2.19. Cafwyd llawer o gynrychiolaethau yn ymwneud ag enwau'r etholaethau arfaethedig. Roedd y rhai a oedd yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori am sicrhau nad oedd hunaniaethau hanesyddol yn cael eu colli, bod yr enwau arfaethedig yn adlewyrchu'r ardaloedd daearyddol a gynhwysir yn yr etholaethau a bod yr enwau'n rhai y byddai'r etholwyr wir yn uniaethu â nhw.
- 2.20. Am y rhesymau a amlinellir isod, rydym wedi argymhell newidiadau, sef newidiadau sylweddol ambell waith, i'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer rhai etholaethau. Fodd bynnag, yn ein barn ni, ni fyddai'n briodol gwneud newidiadau ym mhob achos lle y mynegwyd gwrthwynebiad i'r Cynigion Cychwynnol, o ystyried yr angen i sicrhau bod yr holl etholaethau'n disgyn o fewn yr amrediad etholwyr a ganiateir, y meini prawf statudol a'r effeithiau ôl-ddilynol y gallai newidiadau mewn un etholaeth arfaethedig eu cael ar etholaethau arfaethedig eraill. Wrth wneud ein hargymhellion, rydym wedi ceisio sicrhau, drwyddi draw, bod yr etholaethau arfaethedig rydym yn eu hargymhell yn bodloni'r amrediad etholwyr statudol ac yn adlewyrchu'r meini prawf statudol y gellir eu hystyried yn well.

3. Argymhellion ar gyfer newidiadau i'r Etholaethau Arfaethedig yng Nghymru

Cyflwyniad

- 3.1. Er hwylustod, yn yr adroddiad hwn, caiff yr argymhellion a wnawn eu hystyried trwy gyfeirio at bedwar rhanbarth eang, sef Canolbarth a Gogledd Cymru, De-ddwyrain Cymru, De-orllewin Cymru a Gorllewin Cymru. Rydym yn ymdrin â chanolbarth a gogledd Cymru gyda'i gilydd oherwydd y mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng yr etholaethau arfaethedig yn yr ardaloedd hyn.

Canolbarth a Gogledd Cymru

- 3.2. At ddibenion yr adroddiad hwn, ystyrir bod Canolbarth a Gogledd Cymru yn cynnwys ardaloedd awdurdodau unedol Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Powys a Wrecsam. Mae'r Cynigion Cychwynnol yn cynnig wyth etholaeth ar gyfer yr ardal hon, ynghyd ag etholaeth arfaethedig Ceredigion a Gogledd Sir Benfro sy'n cynnwys Llanidloes a Blaen Hafren, sydd ym Mhowys. Rydym wedi derbyn nifer fawr o gynrychiolaethau yn ymwneud â'r etholaethau arfaethedig hynny.

- 3.3. Yn gryno, am y rhesymau a amlinellwn isod, rydym yn argymhell y newidiadau canlynol i'r cynigion cychwynnol:

- (1). dylai wardiau Caernarfon ynghyd â wardiau Bethel, Llanrug, Penisarwaun, Deiniolen a Chwm-y-glo ffurfio rhan o etholaeth arfaethedig Gogledd Clwyd a Gwynedd, yn hytrach na bod yn rhan o etholaeth Ynys Môn ac Arfon;
- (2). dylid ymestyn yr etholaeth sy'n cynnwys Ynys Môn a Bangor ymhellach i'r dwyrain i gynnwys wardiau Bryn, Pandy, Pant-yr-afon/Penmaenan a Chapel Ulo, ond y dylai ddod i ben cyn cyrraedd Conwy;
- (3). dylai sedd arfaethedig Gogledd Clwyd a Gwynedd ymestyn dim pellach i'r dwyrain na Llangernyw, ond dylai gynnwys Uwchaled ac ardal Y Bala a Llanuwchllyn;
- (4). dylai etholaeth arfaethedig Colwyn a Chonwy ymestyn ymhellach i'r de i gynnwys Betws yn Rhos, ac ymhellach i'r dwyrain i gynnwys ardal Bodelwyddan, Llanelwy a Thremeirchion;
- (5). dylai etholaeth arfaethedig Y Fflint a Rhuddlan aros yn unol â'r cynigion, heblaw y dylid tynnu Gwernaffield a'i chynnwys yn etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy, a chynnwys Northop Hall a'i thynnu o etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy;

- (6). dylai etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy aros yn unol â'r cynigion, heblaw am gyfnewid Gwernaffield a Northop Hall;
- (7). dylai Wrecsam aros yn unol â'r cynigion;
- (8). dylai etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn gynnwys Dinbych a Llansannan, ond dylai Uwchaled ac ardal Y Bala gael eu cynnwys yn etholaeth Gogledd Clwyd a Gwynedd. Dylai ardal Machynlleth gael ei chynnwys yn etholaeth Ceredigion a Gogledd Sir Benfro. Dylai Aberriw a Ffordun gael eu cynnwys yn etholaeth De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn.

3.4. Ystyriwn yn gyntaf etholaeth arfaethedig Ynys Môn ac Arfon. Mae rhai cynrychiolaethau wedi awgrymu y dylid gwneud achos arbennig ar gyfer cadw Ynys Môn yn etholaeth ar wahân oherwydd ei natur fel ynys a'i hanes maith yn etholaeth ar wahân (gweler, er enghraifft, cynrychiolaethau 7708, 7712, 7720, 7781, 7784, 7853 ac 8183). Mae darpariaethau arbennig yn berthnasol, er enghraifft mewn perthynas ag Ynys Wyth ac Orkney a Shetland, ond darperir ar gyfer yr eithriadau penodol hyn yn y Ddeddf, ac maent ar gyfer pedair etholaeth y mae pob un ohonynt y tu allan i Gymru. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob etholaeth yng Nghymru gynnwys rhwng 71,031 a 78,507 o etholwyr. Ni wneir unrhyw eithriad yn y Ddeddf ar gyfer unrhyw etholaeth yng Nghymru. Felly, nid yw'n bosibl dan y ddeddfwriaeth bresennol i gael etholaeth ar wahân ar gyfer Ynys Môn, sydd â llai o etholwyr na'r amrediad etholwyr a ganiateir.

3.5. Roedd nifer o gynrychiolaethau yn awgrymu bod etholwyr yn Ynys Môn yn edrych tua Bangor yn gyntaf ac yna i'r dwyrain yn hytrach na Chaernarfon ar gyfer cysylltiadau cymdeithasol a diwylliannol, a bod gan Gaernarfon a'r ardal yn uniongyrchol o'i chwmpas gysylltiadau agos â gweddill Gwynedd. Mae gan Fethel, Llanrug, Penisarwaun a Deiniolen gysylltiadau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd â Chaernarfon: (gweler, er enghraifft, cynrychiolaethau 7765, 7781, 7827, 7888, 7925, 7977, 8165). Cafwyd cefnogaeth gan bleidiau gwleidyddol heblaw Plaid Cymru yn y gwrandawiadau a'u cynrychiolaethau ysgrifenedig ar gyfer symud Caernarfon a'i wardiau cyfagos i etholaeth Gwynedd. Felly, rydym o'r farn na ddylai'r wardiau a enwir uchod, ynghyd â wardiau Caernarfon,– gan gynnwys Cwm-y-glo a Chadnant, fod mewn etholaeth gydag Ynys Môn, ond y dylid eu hychwanegu at etholaeth Gogledd Clwyd a Gwynedd.

3.6. I fodloni'r amrediad etholwyr statudol ac oherwydd cysylltiadau lleol, byddai wedyn yn briodol ychwanegu'r wardiau i'r dwyrain o Fangor, sef Bryn, Pandy, Pant-yr-afon/Penmaenan a Chapel Ulo, a gynigiwyd i ffurfio rhan o etholaeth Colwyn a Chonwy yn wreiddiol.

3.7. Gan droi nesaf at etholaeth arfaethedig Gogledd Clwyd a Gwynedd, cafwyd llawer o gynrychiolaethau a dynnodd sylw at y ffaith nad oes gan wardiau Vale of Clwyd, gan gynnwys Dinbych a Llanellwyr, unrhyw gysylltiadau cymdeithasol, diwylliannol nac economaidd ag ardal ehangach Gwynedd, sy'n cynnwys Pen Llŷn ac Aberdyfi (gweler, er enghraifft, 7728, 7765, 7873, 7877, 7912, 7941, 7986 ac 8204). Roedd y Blaid Geidwadol, y Democratiaid Rhyddfrydol, Plaid Cymru, y Blaid Lafur a Chyngor

Gwynedd i gyd yn cytuno ar yr egwyddor o dynnu wardiau Sir Ddinbych o'r etholaeth arfaethedig hon, er bod cryn anghytundeb ynghylch pa wardiau i'w tynnu'n benodol. Felly, rydym o'r farn na ddylai etholaeth newydd Gwynedd ymestyn ymhellach i'r dwyrain na Llangernyw.

- 3.8.** Roedd cefnogaeth gref iawn ar gyfer cynnwys Uwchaled, Llandderfel, Y Bala a Llanuwchllyn mewn etholaeth Gwynedd yn hytrach nag etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn, oherwydd y cysylltiadau cymdeithasol ac economaidd, ac o ran yr iaith Gymraeg, rhwng yr ardal honno a Gwynedd (gweler, er enghraifft, cynrychiolaethau 7769, 7809, 7813, 7838, 7865, 7885, 7887, 7889, 7895, 7899, 7903, 7912, 7921, 7934, 7961, 7958, 7972, 7986, 7987, 8102, 8137-8142, 7993, 8013, 8145, 8174, ac 8175). Cafwyd cefnogaeth gref gan y pleidiau gwleidyddol hefyd. Rydym yn cytuno ac yn argymhell y dylid cynnwys y wardiau hynny yn etholaeth newydd Gogledd Clwyd a Gwynedd, a'u tynnu o etholaeth De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn. Gyda'r newidiadau hynny, byddai etholaeth newydd De Clwyd a Gwynedd o fewn yr amrediad etholwyr statudol o hyd, ac yn cynnwys ardaloedd dau awdurdod lleol yn unig.
- 3.9.** Cynhwysodd y Comisiwn y wardiau hyn yn etholaeth De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn a oedd yn ffurfio rhan o'r Cynigion Cychwynnol, yn rhannol er mwyn galluogi mynediad digonol ar y ffyrdd i bob rhan o'r etholaeth arfaethedig. Fodd bynnag, byddai hynny'n cynnwys croesi Mynyddoedd y Berwyn, ac mae tystiolaeth yn dangos, yn ymarferol, y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio ffordd osgoi Croesoswallt at y diben hwn. Gweler, er enghraifft, cynrychiolaeth 8180 a'r cyflwyniad gan Liz Saville Roberts AS (trawsgrifiad o Wrandawiad Wrecsam, Diwrnod 2, tudalen 51).
- 3.10.** Gan droi at etholaeth arfaethedig Colwyn a Chonwy, rydym eisoes wedi argymhell y dylid ychwanegu wardiau Bryn, Pandy, Pant-yr-afon/Penmaenan a Chapel Ulo at yr etholaeth hon am y rhesymau a roddwyd gennym. Rydym hefyd wedi argymhell eisoes y dylai etholaeth Gwynedd ddod i ben yn y dwyrain yn Llangernyw. I gydnabod y cysylltiadau agos rhwng ardal wledig Betws-yn-rhos a'r arfordir a thref Bae Colwyn, rydym yn argymhell y dylid cynnwys y ward honno yn yr etholaeth newydd. Yn yr un modd, rydym wedi argymhell y dylid tynnu wardiau Bodelwyddan, Dwyrain a Gorllewin Llanelwy, Tremeirchion a Threfnant o etholaeth arfaethedig Gwynedd – nad oes ganddynt unrhyw gysylltiadau lleol â hi – ond mae ganddynt gysylltiadau cryf â'r ardal arfordirol yn yr etholaeth arfaethedig hon, felly rydym yn argymhell y dylid eu cynnwys yn etholaeth Colwyn a Chonwy. Mae'r argymhellion hyn yn ailsefydlu'r cysylltiadau hynny, ond nid ydym o'r farn ei bod yn briodol mynd mor bell â Dr James Davies, cyn AS Vale of Clwyd, sy'n cynnig etholaeth estynedig newydd "Dyffryn Clwyd" yng ngogledd Sir Ddinbych a gorllewin Sir y Fflint, sy'n ymestyn i etholaeth arfaethedig Y Fflint a Rhuddlan. Rydym yn cytuno â'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer yr etholaeth honno, i raddau helaeth, ac yn cytuno ei bod yn cyflawni etholaeth sydd â nodweddion lled-debyg ar hyd aber Dyfrdwy a'r mewndir. Rydym o'n farn bod y cynnig hwnnw'n well na chynnig Dr Davies, ac yn cyflawni ei nod o gydnabod perthynas Llanelwy â'r arfordir.

- 3.11. Yr unig newidiadau rydym yn eu hargymell i'r Cynigion Cychwynnol mewn perthynas ag etholaeth Y Fflint a Rhuddlan yw cynnwys Northop Hall er mwyn cydnabod ei chysylltiadau â Llaneurgain, fel yr esboniwyd gan David Hanson AS (cynrychiolaeth 7905, a gweler cynrychiolaeth 8033) a thynnu Gwernaffield, sydd â chysylltiadau lleol â'r Wyddgrug yn etholaeth gyfagos Alun a Glannau Dyfrdwy. Y newidiadau ôl-ddilynol i etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy yw'r unig argymhellion sydd gennym mewn perthynas â'r etholaeth arfaethedig honno.
- 3.12. Nid oes gennym unrhyw argymhellion ar gyfer newidiadau i etholaeth arfaethedig Wrecsam Maelor, a gafodd cefnogaeth gyffredinol yn y gwrandawiadau a'r cynrychiolaethau.
- 3.13. O ran etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn, rydym eisoes wedi argymell tynnu wardiau Llansannan a Dinbych o etholaeth arfaethedig Gogledd Clwyd a Gwynedd oherwydd diffyg unrhyw gysylltiadau cymdeithasol, diwylliannol neu economaidd rhyngddynt, felly rydym yn argymell cynnwys y wardiau hynny yn etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn. Mae'r newid argymelledig hwn hefyd yn uno'r wardiau hynny â'r hyn y galwodd Dr Davies yn ward "amddifad" Llandyrnog, a wahanwyd oddi wrth Ddinbych gan y Cynigion Cychwynnol. Eto, rydym eisoes wedi argymell y dylid tynnu'r wardiau yn ardal Y Bala o'r etholaeth arfaethedig hon a'u cynnig yn etholaeth arfaethedig Gogledd Clwyd a Gwynedd oherwydd y cysylltiadau diwylliannol a chymdeithasol cryf a'r iaith Gymraeg. Am resymau tebyg, cafwyd cefnogaeth gref yn y cynrychiolaethau a'r gwrandawiadau i dynnu Machynlleth a wardiau cyfagos Glantwymyn a Llanbrynmair o etholaeth De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn a'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig Ceredigion a Gogledd Sir Benfro, oherwydd cysylltiadau lleol a chysylltiadau cymdeithasol a thrafnidiaeth (gweler, er enghraifft, cynrychiolaethau 7813, 7815, 7864, 7904, 7912, 7978 a 7981). Rydym yn cytuno, ac felly rydym yn argymell y newidiadau hyn.
- 3.14. Rydym hefyd yn argymell y dylid tynnu wardiau etholiadol Aberriw a Ffordun o etholaeth arfaethedig Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn, a'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn, oherwydd bod y ddwy ward etholiadol hyn yn edrych tua'r Trallwng ar gyfer gwasanaethau ac ysgolion. Byddai'r cysylltiadau lleol hynny'n cael eu torri pe byddai'r Trallwng yn cael ei chynnwys yn Ne Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn, a bod Aberriw a Ffordun mewn etholaeth ar wahân. Mae'r cynrychiolaethau a wnaeth y pwyntiau hyn yn cynnwys Cyngor Sir Powys (7981) a'r Democratiaid Rhyddfrydol (8180).
- 3.15. Felly, gwnawn argymhelliad ôl-ddilynol mewn perthynas ag etholaeth Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn, i dynnu wardiau etholiadol Aberriw a Ffordun. Yn ogystal, rydym yn argymell cynnwys wardiau etholiadol Llanidloes a Blaen Hafren yn yr etholaeth hon, a'u tynnu o etholaeth arfaethedig Ceredigion a Gogledd Sir Benfro. Rydym yn cytuno â'r Plaid Geidwadol, y Democratiaid Rhyddfrydol, Plaid Cymru a nifer o bobl eraill a dynnodd sylw yn y gwrandawiadau ac yn ysgrifenedig (gweler, er enghraifft, cynrychiolaethau 7711, 7680, 7699, 7764, 7773, 7813, 7815, 7821, 7829, 7836, 7850, 7860, 7904, 7981 ac 8030) at y ffaith bod cysylltiadau lleol i'r dwyrain yn Llandinam a Rhaeadr Gwy, ac nid i'r gorllewin lle mae mynyddoedd

Pumlumon yn atal unrhyw gysylltiadau posibl. Mae ychwanegu'r wardiau hyn yn cydbwysu tynnu Aberriw a Ffordun, ac mae'r etholaeth yn parhau o fewn yr amrediad etholwyr statudol.

Y Prif Wrthgynigion

- 3.16.** Ystyriwn, yn gryno, rai o'r prif wrthgynigion a oedd yn mynd i'r afael â'r etholaethau yn ardal Canolbarth a Gogledd Cymru. O ran Ynys Môn ac Arfon, mae Ceidwadwyr Cymru yn awgrymu tynnu pedair ward etholiadol Caernarfon, yn ogystal â wardiau Cwm-y-glo a Llanrug, a'u hamnewid am wardiau etholiadol Bryn a Phandy. Ar gyfer Gogledd Clwyd a Gwynedd, maent o blaid tynnu tair ward etholiadol Dinbych a dwy ward etholiadol Llanelwy, ynghyd â wardiau Bodelwyddan, Trefnant a Thremeirchion, a'u hamnewid am bedair ward etholiadol Caernarfon a wardiau Cwm-y-glo, Llanrug, Y Bala, Llanuwchllyn ac Uwchaled. Eu hunig awgrym ar gyfer Colwyn a Chonwy yw tynnu wardiau etholiadol Bryn a Phandy.
- 3.17.** Ar gyfer Y Fflint a Rhuddlan, mae Ceidwadwyr Cymru o blaid tynnu dwy ward etholiadol Bagillt, pedair ward Y Fflint a ward Llaneanu a'u hamnewid am dair ward etholiadol Dinbych a dwy ward etholiadol Llanelwy, ynghyd â Bodelwyddan, Llandyrnog, Trefnant, a Thremeirchion. Cafwyd nifer o gynrychiolaethau yn cefnogi'r awgrym hwn, a ddisgrifiwyd fel sedd estynedig Dyffryn Clwyd, gan gynnwys gan Dr James Davies, sef AS Vale of Clwyd ar adeg yr ymgyngoriadau. Ar gyfer Alun a Glannau Dyfrdwy, maent yn awgrymu tynnu pedair ward etholiadol Yr Wyddgrug a wardiau Argoed, Gwernymynydd, Coed-llai a New Brighton, a fyddai'n cael eu hamnewid am ddwy ward etholiadol Bagillt, pedair ward Y Fflint a ward etholiadol Llaneanu. Ar gyfer De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn, maent yn awgrymu ychwanegu pedair ward etholiadol Yr Wyddgrug a wardiau etholiadol Argoed, Aberriw, Ffordun, Gwernymynydd, Coed-llai a New Brighton, a thynnu wardiau etholiadol Y Bala, Glantwymyn, Llanbryn-mair, Llandderfel, Llandyrnog, Llanuwchllyn, Machynlleth ac Uwchaled. Eu hunig awgrym ar gyfer Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn yw amnewid wardiau etholiadol Aberriw a Ffordun am rai Blaen Hafren a Llanidloes.
- 3.18.** Gan droi at Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, ar gyfer Ynys Môn ac Arfon, maent yn cynnig tynnu pedair ward Caernarfon a wardiau Deiniolen, Cwm-y-glo, Y Felinheli, Bethel, Penisarwaun, a Llanrug, a fyddai'n cael eu hamnewid am wardiau Bryn, Capel Ulo, Pandy, a Phant-yr-afon/Penmaenan. Ar gyfer Gogledd Clwyd a Gwynedd, maent yn awgrymu tynnu tair ward Dinbych a dwy ward Llanelwy, ynghyd â wardiau Bodelwyddan, Trefnant, Thremeirchion, Eglwysbach, Betws yn Rhos, Llansannan a Llangernyw a'u hamnewid am bedair ward Caernarfon a wardiau Cwm-y-glo, Llanrug, Deiniolen, Bethel, Y Felinheli, Penisarwaun, Y Bala, Llandderfel a Llanuwchllyn. O ran Colwyn a Chonwy, maent yn cynnig tynnu wardiau Capel Ulo, Pant-yr-afon/Penmaenan, Pandy a Bryn, a fyddai'n cael eu hamnewid am ddwy ward Llanelwy ynghyd â wardiau Bodelwyddan, Trefnant, Eglwysbach, Betws yn Rhos a Thremeirchion. Maent yn awgrymu tynnu rhan o ward Ponciau yn etholaeth Wrecsam Maelor. Ynghyd â thair ward Dinbych a wardiau Llansannan, Llangernyw, Aberriw a Ffordun, byddai'r rhain yn cael eu rhoi yn etholaeth De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn a fyddai, yn ei thro, yn colli wardiau Y

Bala, Llandderfel, Llanuwchllyn, Machynlleth, Llanbrynmair a Glantwymyn. Eu hunig gynnig ar gyfer Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn yw tynnu wardiau Aberriw a Ffordun ac ychwanegu wardiau Llanidloes a Blaen Hafren, yr ydym yn cytuno ag ef.

- 3.19.** Mae cynigion Plaid Cymru ar gyfer Gogledd Clwyd a Gwynedd yn cynnwys tynnu tair ward Dinbych a dwy ward Llanelwy, ynghyd â wardiau Bodelwyddan, Trefnant, Tremeirchion, Betws yn Rhos a Llansannan, a'u hamnewid am wardiau Y Bala, Llandderfel, Llanuwchllyn, Uwchaled, Bryn, Capel Ulo, Conwy, Pandy a Phant-yr-afon/Penmaenan. Ar gyfer Colwyn a Chonwy, maent yn awgrymu tynnu wardiau Bryn, Capel Ulo, Conwy, Pandy a Phant-yr-afon/Penmaenan, a'u hamnewid am wardiau Bodelwyddan, Llanelwy (Dwyrain a Gorllewin), Trefnant, Tremeirchion a Betws yn Rhos. Gan droi at Dde Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn, mae eu cynnig yn cynnwys tynnu wardiau Y Bala, Llanuwchllyn, Llandderfel, Uwchaled, Llanbrynmair, Glantwymyn a Machynlleth, ac ychwanegu tair ward Dinbych a ward Llansannan. Ar gyfer Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn, eu hunig awgrym yw tynnu wardiau Blaen Hafren a Llanidloes, ac rydym yn derbyn yr awgrym hwnnw.
- 3.20.** Mae cynigion y Blaid Lafur ar gyfer Ynys Môn ac Arfon yn cynnwys tynnu pedair ward Caernarfon, ynghyd â wardiau Cwm-y-Glo a Llanrug, a'u hamnewid am wardiau Bryn, Pandy, Capel Ulo a Phant-yr-afon/Penmaenan. Ar gyfer Gogledd Clwyd a Gwynedd, maent yn awgrymu amnewid dwy ward Llanelwy a wardiau Bodelwyddan, Trefnant a Thremeirchion am bedair ward Caernarfon, Cwm-y-Glo a Llanrug. Ar gyfer Colwyn a Chonwy, maent yn cynnig ychwanegu dwy ward Llanelwy a wardiau Bodelwyddan, Trefnant a Thremeirchion a thynnu wardiau Bryn, Pandy, Capel Ulo a Phant-yr-afon/Penmaenan. Eu hunig awgrym arall yw cyfnwied Gwernaffield a Northop Hall rhwng Y Fflint a Rhuddlan ac Alun a Glannau Dyfrdwy, ac rydym yn derbyn yr awgrym hwnnw.
- 3.21.** Rydym yn cytuno y dylai pedair ward etholiadol Caernarfon a Chwm-y-glo a Llanrug fod yng Ngogledd Clwyd a Gwynedd. Fodd bynnag, mae gan Ddeiniolen, Bethel a Phenisarwaun gysylltiadau cryfach â Chaernarfon na Bangor, a dylid eu symud hefyd. Er bod rhywfaint o deilyngdod i ychwanegu Y Felinheli hefyd, byddai hynny'n golygu y byddai'r etholaeth dros ei chwota. Yn yr un modd, rydym yn derbyn y dylai Bryn a Phandy fod yn etholaeth Ynys Môn ac Arfon. Er bod Llanfairfechan wedi'i gwahanu oddi wrth Benmaenmawr gan Fynydd Penmaenmawr, mae pentir Penmaenbach yn gwahanu Penmaenmawr oddi wrth Gonwy, a cheir tystiolaeth o gysylltiadau rhwng Penmaenmawr, yn ogystal â Llanfairfechan, a Bangor (gweler, er enghraifft, Trawsgrifiad Gwrandawriad Bangor, Diwrnod 1, tudalen 20). O ganlyniad, rydym wedi argymhell y dylai Capel Ulo a Phant-yr-afon/Penmaenan fod yn yr un etholaeth â Bangor hefyd.
- 3.22.** Rydym eisoes wedi cyfeirio at y gefnogaeth gyffredin ar gyfer tynnu holl wardiau Sir Dinbych o etholaeth Gogledd Clwyd a Gwynedd, a chynnwys ardal Y Bala. Yn ogystal, rydym o'r farn bod gan Fetws-yn-rhos fwy o gysylltiad ag arfordir Colwyn a Chonwy, bod gan Llansannan y fath gysylltiadau â Dinbych fel y dylent fod yn yr un etholaeth, ac y byddai cynnwys Conwy yn etholaeth Gogledd Clwyd a Gwynedd yn torri cysylltiadau lleol â Llandudno, Deganwy a Chyffordd Llandudno. Ar ben hynny,

rydym o'r farn bod cysylltiadau digonol â gweddill yr etholaeth arfaethedig i Langernyw ac Eglwysbach barhau'n rhan o etholaeth De Clwyd a Gwynedd.

- 3.23.** Rydym eisoes wedi esbonio pam nad ydym yn cefnogi'r cynnig ar gyfer etholaeth Dyffryn Clwyd estynedig, ac rydym wedi nodi'r cysylltiadau rhwng Llanelwy a'i chefnwlad, sef Tremeirchion, Trefnant a Bodelwyddan, ac arfordir Colwyn a Chonwy. Mae Cyngor Tref Yr Wyddgrug o'r farn y dylai'r Wyddgrug ffurfio rhan o etholaeth arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy.
- 3.24.** Mae pryder sylweddol ynghylch rhannu Sir Drefaldwyn rhwng etholaethau, a chyflwynodd Montgomeryshire First wrthgynnig sy'n ceisio creu etholaeth Canolbarth Cymru. Serch hynny, mae hynny'n creu problemau sylweddol mewn mannau eraill, gan gynnwys rhannu Ceredigion a chysylltu'r rhan ogleddol ag etholaeth a fyddai'n ymestyn i gyrion Caernarfon a Chonwy, ac etholaeth Y Bannau a fyddai'n ymestyn o Bentywyn bron mor bell â'r ffin â Lloegr. Er ein bod yn cydymdeimlo'n sylweddol â'r nod o gynnal etholaeth Sir Drefaldwyn, ar ôl rhoi ystyriaeth sylweddol i'r mater, nid ydym o'r farn ei bod yn ymarferol cadw Sir Drefaldwyn bresennol mewn un etholaeth arfaethedig. Rydym o'r farn y byddai gwneud hynny yn cael effeithiau ôl-ddilynol ar etholaethau eraill na fyddai, ar y cyfan, yn adlewyrchu'r meini prawf statudol cystal.

De-ddwyrain Cymru

- 3.25.** At ddibenion yr adroddiad hwn, mae de-ddwyrain Cymru yn cynnwys ardaloedd awdurdodau unedol Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg.
- 3.26.** Mae'r Cynigion Cychwynnol yn cynnig 13 o etholaethau ar gyfer yr ardal hon, er bod etholaeth arfaethedig Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg yn ymestyn i awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Bu cefnogaeth ar gyfer nifer o'r Cynigion Cychwynnol hyn, fel Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen, Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Rhymni, Caerffili, Cwm Cynon a Phontypridd, a Rhondda a Llantrisant. Fodd bynnag, bu gwrthwynebiad i gynigion eraill. Bu gwrthwynebiad i gynnwys wardiau etholiadol penodol mewn un etholaeth arfaethedig benodol yn hytrach nag un arall, fel yr awgrymiadau y dylai Llanhari fod yn etholaeth Pontypridd, y dylai'r Tŷ-du fod yn etholaeth arfaethedig Casnewydd yn hytrach nag yng Nghaerffili, ac y dylai Tonyrefail fod yn etholaeth Pontypridd yn hytrach nag yn etholaeth Y Rhondda. Cafwyd llawer o gynrychiolaethau a oedd yn nodi na ddylai Penarth fod mewn etholaeth wahanol i wardiau Caerdydd, yn enwedig y rhai o gwmpas Bae Caerdydd. Cafwyd llawer o gynrychiolaethau yn y ddau wrandawriad ac yn ysgrifenedig ynghylch cyfansoddiad etholaethau arfaethedig Caerdydd.
- 3.27.** Dywed y Cynigion Cychwynnol (paragraff 18.3) bod ward Ffynnon Taf wedi'i chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd i ddarparu digon o etholwyr i fodloni'r isafswm statudol. Fodd bynnag, yn y gwrandawriadau, cadarnhaodd y Comisiwn nad yw hynny'n gywir. Ni allai Ffynnon Taf ffurfio rhan o'r cynigion ar gyfer Cwm Cynon a Phontypridd oherwydd y byddai'r etholaeth honno'n rhagori ar

y terfyn statudol. Fe wnaeth y Comisiwn ei rhoi yn etholaeth Gogledd Caerdydd oherwydd y credai bod ganddi gysylltiadau da ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd â Gogledd Caerdydd.

3.28. Yn gryno, rydym yn argymhell y newidiadau canlynol i'r Cynigion Cychwynnol:

- (1). dylai wardiau etholiadol Pentyrch, Radyr a Chreigiau/Sain Ffagan gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd;**
- (2). dylai ward etholiadol Ystum Taf gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd;**
- (3). dylai ward etholiadol Butetown gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd yn hytrach nag etholaeth arfaethedig De a Dwyrain Caerdydd;**
- (4). dylai ward etholiadol Pontpennau/Yr Hen Laneirwg gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd yn hytrach nag etholaeth arfaethedig De a Dwyrain Caerdydd;**
- (5). dylai ward etholiadol Gabalfa gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig De a Dwyrain Caerdydd yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd;**
- (6). dylai wardiau arfaethedig Cefn Cribwr, Abercynffig ac Ynysawdre gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg.**

3.29. Cafwyd nifer gymharol fach o gynrychiolaethau yn y gwrandawiadau neu'n ysgrifenedig ynghylch etholaethau arfaethedig Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen, Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Rhymni, a Chaerffili.

3.30. Mae pum Aelod Seneddol yn ardal yr etholaethau arfaethedig hyn yn cefnogi'r Cynigion Cychwynnol yn llawn, sef David Davies, AS ar gyfer Sir Fynwy (cynrychiolaeth 7733), Nick Smith, AS ar gyfer Blaenau Gwent (cynrychiolaeth 7862), Wayne David, AS ar gyfer Caerffili (cynrychiolaeth 7948), Gerald Jones, AS ar gyfer Merthyr Tudful a Rhymni (cynrychiolaeth 7984), a Nick Thomas-Symonds, AS ar gyfer Torfaen (cynrychiolaeth 7869).

3.31. Caiff y gwrthgynnig ar gyfer etholaethau arfaethedig Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Rhymni, a Chaerffili gan Chris Evans, AS ar gyfer Islwyn (cynrychiolaeth 7939), a Chyngor Cymuned Argoed (cynrychiolaeth 7751) ar gyfer etholaeth Blaenau'r Cymoedd eu gwrthwynebu gan Aelodau Seneddol yr ardaloedd hyn, oherwydd eu bod yn rhannu awdurdodau lleol Blaenau Gwent a Merthyr Tudful ac yn torri cysylltiadau lleol. Mae pedair plaid wleidyddol sydd â chynrychiolwyr o Gymru yn San Steffan yn cefnogi'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer yr ardaloedd hyn ac ar gyfer y tair etholaeth arfaethedig arall yn yr ardal hon, y cyfeirir atynt uchod. Yn hynny o beth, mae'r Blaid Lafur yn nodi bod y cynigion yn parchu'r etholaethau a'r awdurdodau lleol presennol i'r eithaf, a hefyd yn caniatáu i'r rhan fwyaf o'r

cymoedd gael eu cynnwys mewn seddau unigol yn hytrach na'u rhannu'n fewnol, gweler cynrychiolaeth 8175.

- 3.32.** Rydym yn fodlon bod cysylltiadau digonol rhwng Caerllion a Chwibrân ac etholaeth arfaethedig Torfaen i gyfiawnhau cynnwys Caerllion yn yr etholaeth arfaethedig honno. Ar ben hynny, nid yw nifer yr etholwyr cofrestredig ym mhob un o wardiau Torfaen yn ddigon i fod o fewn yr amrediad etholwyr statudol, felly mae angen Caerllion i sicrhau bod yr etholaeth arfaethedig o fewn yr amrediad hwnnw.
- 3.33.** Mae angen ward Tŷ-du i sicrhau bod etholaeth arfaethedig Caerffili o fewn yr amrediad etholwyr statudol ac, oherwydd ei bod i'r gogledd o'r M4, mae'n cydweddu â'r etholaeth arfaethedig hon, gan adeiladu ar gysylltiadau lleol presennol a defnyddio llawer o'r cysylltiadau trafndiaeth da ar draws yr ardal. Nid ydym yn argymhell unrhyw newidiadau mewn perthynas â'r etholaethau arfaethedig hyn.
- 3.34.** O ran etholaeth arfaethedig Cwm Cynon a Phontypridd ac etholaeth arfaethedig Rhondda a Llantrisant, cafwyd ychydig iawn o gynrychiolaethau, ond mae gwrthgynnig gan Blaid Lafur Etholaeth Pontypridd (cynrychiolaeth 7926), a gefnogir gan Aelod Seneddol Pontypridd, sef Owen Smith AS, ac Aelod Cynulliad Pontypridd, sef Mick Antoniw AC (cynrychiolaeth 7935). Maent yn honni bod Ffynnon Taf yn edrych tua'r cymoedd yn hytrach na Chaerdydd ar gyfer ei chysylltiadau lleol, a'i bod yn ardal awdurdod unedol Rhondda Cynon Taf, felly y dylai fod yn etholaeth Rhondda a Llantrisant yn hytrach nag yn etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd; a bod gan Donyrefail gysylltiadau lleol â Phontypridd yn hytrach na'r Rhondda, ac felly y dylai fod yn etholaeth Pontypridd. Maent yn awgrymu y dylai wardiau gael eu rhannu i'r gogledd a'r de.
- 3.35.** Rydym o'r farn bod gan Ffynnon Taf gysylltiadau lleol â ward etholiadol Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais yn etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd ar hyd ei ffin ddeheuol, a bod ganddi gysylltiadau cyfathrebu da â gogledd Caerdydd ar gyfer yr A470 a rheilffordd y Cymoedd. Mae hefyd yn uniongyrchol i'r dwyrain o Bentyrch, yr ydym yn argymhell ei hychwanegu at etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd. Pe byddai ward Ffynnon Taf yn cael ei hychwanegu at etholaeth arfaethedig Cwm Cynon a Phontypridd, byddai'r niferoedd yno yn rhagori ar yr amrediad statudol.
- 3.36.** Rydym o'r farn bod gan Donyrefail gysylltiadau lleol â Llantrisant a Thonysguboriau i gyfiawnhau ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Rhondda a Llantrisant, ac mae angen ei chynnwys er mwyn bodloni'r amrediad statudol.
- 3.37.** Rydym o'r farn bod y Cynigion Cychwynnol yn cyfiawnhau'n briodol y cynigion ar gyfer Cwm Cynon a Phontypridd, a Rhondda a Llantrisant. Nid oes gennym unrhyw argymhellion ar gyfer newid mewn perthynas â'r etholaethau arfaethedig hyn, ac rydym yn dyfynnu ymateb y Blaid Lafur, sy'n datgan y cadwyd etholaeth Cwm Cynon a Phontypridd yn eu cyfanrwydd yn eu hetholaethau newydd, sy'n parchu'n fras gyfanrwydd y cymoedd y maent oddi mewn iddynt, gweler cynrychiolaeth 8175.

- 3.38.** O ran Caerdydd, mae'r Blaid Lafur a'i ASau ac ACau ar gyfer y ddinas, ynghyd â nifer sylweddol o unigolion, yn cefnogi'r Cynigion Cychwynnol, ond bu gwrthwynebiad eang i'r cynnig i dynnu Penarth o sedd Caerdydd (gweler, er enghraifft, cynrychiolaethau 8047, 8069, 8079, 8081, 8097, 8176), i'r cynnig i roi Grangetown a Butetown mewn etholaethau ar wahân (gweler, er enghraifft, cynrychiolaethau 8065, 8081, 8082, 8105, ac 8110) a thynnu ward Pontpennau/Yr Hen Laneirwg o etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd, a'i chynnwys yn etholaeth arfaethedig De a Dwyrain Caerdydd (gweler, er enghraifft, cynrychiolaethau 7797, 7807, 7841, 8042, 8112 ac 8164).
- 3.39.** Cyfanswm nifer yr etholwyr ym mhob un o wardiau Caerdydd yw 227,878, ac mae 3 AS yn rhoi 75,959 o etholwyr, ar gyfartaledd, sydd ymhell o fewn yr amrediad etholwyr statudol. Ar y llaw arall, byddai ychwanegu'r wardiau etholiadol ym Mro Morgannwg sy'n ffurfio rhan o etholaeth Cardiff South and Penarth ar hyn o bryd yn arwain at ffigur sydd ymhell y tu allan i'r amrediad hwn. Er y cydnabyddwn fod etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth yn disgyn o fewn yr amrediad statudol, byddai ei chadw yn arwain at o leiaf un etholaeth arall yng Nghaerdydd yn gorfod cynnwys nifer o wardiau o'r tu allan i Ddinas a Sir Caerdydd. O ystyried yr angen deddfwriaethol i ystyried ffiniau llywodraeth leol, ni allwn gefnogi cadw'r etholaeth hon. Er ein bod o blaid cynnwys Ffynnon Taf yn un o etholaethau Caerdydd, ni fyddai hynny'n arwain at ragori ar yr amrediad etholwyr.
- 3.40.** Rydym o'r farn ei bod yn fwy priodol cynnwys wardiau etholiadol Pentyrch, Radyr, a Chreigiau/Sain Ffagan yn etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd yn hytrach nag yng Ngorllewin Caerdydd, yn unol â'r cynnig, ac y dylai Pontpennau/Yr Hen Laneirwg gael ei chynnwys yng Ngogledd Caerdydd yn hytrach na De a Dwyrain Caerdydd hefyd. At ei gilydd, rydym o'r farn bod y cysylltiadau rhwng Ystum Taf a Llandaf yn cyfiawnhau ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd. Rydym o'r farn bod gan Gabalfa gysylltiadau agos â ward gyfagos Cathays, ac y dylid ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig De a Dwyrain Caerdydd. Yn olaf, o ran Caerdydd, mae gan Butetown gysylltiadau diwylliannol a ffisegol cryf â Grangetown ac mae'r ddwy ohonynt yn ffurfio rhan o gymuned Bae Caerdydd, ac rydym o'r farn y byddai'n briodol eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd.
- 3.41.** Nid oes gennym unrhyw argymhellion ar gyfer newidiadau mewn perthynas ag etholaeth Dwyrain Bro Morgannwg. Ar wahân i'r mater yn ymwneud â Cardiff South and Penarth, yr ydym wedi mynd i'r afael ag ef eisoes, ni chafwyd llawer o sylwadau heblaw am gefnogaeth i'r Cynigion Cychwynnol (gweler, er enghraifft, cynrychiolaeth 7823).
- 3.42.** O ran etholaeth arfaethedig Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg, eto roedd y sylwadau'n gyfyngedig, a chafwyd mwy o ddatganiadau o gefnogaeth nag awgrymiadau ar gyfer newidiadau (gweler, er enghraifft, cynrychiolaeth 7854). Un awgrym rydym yn ei gefnogi (cynrychiolaeth 7914) yw cynnwys wardiau Abercynffig, Cefn Cribwr, ac Ynysawdre. Ymddengys yr ystyrir eu bod yn rhan o Ben-y-bont ar Ogwr, a byddai hyn hefyd yn hwyluso cynnwys wardiau Aberafan,

Dwyrain a Gorllewin Sandfields a Baglan yn etholaeth arfaethedig Ogwr a Phort Talbot (gweler y cyfiawnhad dan bennawd De-orllewin Cymru).

Y Prif Wrthgynigion

- 3.43.** Ystyriwn rai o'r prif wrthgynigion a oedd yn mynd i'r afael â'r etholaethau yn ardal de-ddwyrain Cymru yn fras. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cynnig mân newidiadau yn ymwneud ag etholaethau arfaethedig Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae'r rhain yn cynnwys tynnu ward Llanwern o Sir Fynwy a ward Caerllion o Dorfaen, a'u trosglwyddo i Gasnewydd, a throsglwyddo wardiau Betws a Malpas o Gasnewydd i Dorfaen. Ychydig iawn o gefnogaeth sydd i'r gwrthgynnig hwn, a chaiff y Cynigion Cychwynnol ar gyfer eu hetholaethau unigol eu cefnogi gan ASau Torfaen a Sir Fynwy (cynrychiolaethau 7733, 8345 a 7869). Yn ein barn ni, ymddengys nad yw'r gwrthgynnig hwn yn cynnig unrhyw fantais benodol, ac rydym eisoes wedi cyfeirio at y cysylltiadau rhwng Caerllion a Chwmbrân. Maent hefyd yn cynnig mân newid mewn perthynas ag etholaeth Rhondda a Llantrisant, lle byddai ward Llanhari yn cael ei hychwanegu at etholaeth arfaethedig Ogwr a Phort Talbot. Eir i'r afael â hyn dan y pennawd De-orllewin Cymru isod
- 3.44.** Ar gyfer Gogledd Caerdydd a De a Dwyrain Caerdydd, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn awgrymu ail-gyflunio sylweddol ar sail dalgylchoedd ysgolion a data'r cyfrifiad, sef trosglwyddo Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Cyncoed a Phentwyn o Ogledd Caerdydd i Dde a Dwyrain Caerdydd, a chyfnewid Pontpennau/Yr Hen Laneirwg, Trowbridge, Llanrhymni a Thredelerch y ffordd arall. Fodd bynnag, rydym eisoes wedi cyfeirio at y gwrthwynebiad eang i'r cynnig i roi Grangetown a Butetown mewn etholaethau ar wahân, a thynnu Pontpennau/Yr Hen Laneirwg o etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd a'i chynnwys yn etholaeth arfaethedig De a Dwyrain Caerdydd. At ei gilydd, rydym o'r farn bod ein newidiadau argymelledig yn adlewyrchu cysylltiadau lleol â'r brifddinas yn well.
- 3.45.** Mae Ceidwadwyr Cymru yn cefnogi'r etholaethau arfaethedig yn yr ardal hon yn llawn, heblaw'r rhai sy'n cwmpasu ardaloedd Caerdydd a Rhondda Cynon Taf. Ar gyfer Gorllewin Caerdydd, maent yn awgrymu tynnu wardiau etholiadol Creigiau/Sain Ffagan, Pentyrch a Radyr ac ychwanegu wardiau etholiadol Butetown ac Ystum Taf. Ar gyfer Gogledd Caerdydd, maent yn awgrymu tynnu wardiau etholiadol Gabalfa, Ystum Taf a Phentwyn ac ychwanegu wardiau etholiadol Creigiau/Sain Ffagan, Pentyrch a Phontpennau/Yr Hen Laneirwg. Ar gyfer De a Dwyrain Caerdydd, maent yn cynnig amnewid wardiau etholiadol Butetown a Phontpennau/Yr Hen Laneirwg am wardiau etholiadol Gabalfa a Phentwyn. Rydym yn cytuno â'r gwrthgynigion hyn am y rhesymau a roddwyd uchod.
- 3.46.** Yn eu hymateb i'r Ail Gyfnod Ymgynghori (cynrychiolaeth 8490), mae Ceidwadwyr Cymru yn mynegi rhywfaint o ffafriaeth i wrthgynnig Plaid Lafur Etholaeth Pontypridd, a fyddai'n cadw Ffynnon Taf yn etholaeth Rhondda Cynon Taf. Fodd bynnag, rydym eisoes wedi esbonio uchod pam na allwn gefnogi'r gwrthgynnig hwnnw. Rydym hefyd wedi rhoi ein rhesymau dros wrthod y gwrthgynnig ar gyfer etholaethau arfaethedig Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Rhymni, a Chaerffili gan Chris Evans, AS ar gyfer Islwyn, a Chyngor Cymuned Argoed. Yn yr un modd, rydym

hefyd wedi rhoi ein rhesymau dros beidio â chefnogi'r awgrym i gadw etholaeth Cardiff South and Penarth.

- 3.47. Nid yw'r Plaid Lafur yn gwneud unrhyw wrthgynigion ar gyfer ardal de-ddwyrain Cymru, ac mae'n cefnogi'r Cynigion Cychwynnol yn gyffredinol. Nid yw Plaid Cymru yn gwneud unrhyw wrthgynigion mewn perthynas â'r ardal hon ychwaith.

De-orllewin Cymru

- 3.48. At ddibenion yr adroddiad hwn, mae De-orllewin Cymru yn cynnwys ardaloedd awdurdodau unedol Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

- 3.49. Mae'r Cynigion Cychwynnol yn cynnig chwe etholaeth ar gyfer yr ardal hon, er bod etholaeth arfaethedig Ogwr a Phort Talbot yn cynnwys wardiau etholiadol yn Rhondda Cynon Taf.

- 3.50. **Yn gryno, rydym yn argymhell y newidiadau canlynol i'r Cynigion Cychwynnol:**

- (1). **dylai wardiau etholiadol Cefn Cribwr, Abercynffig ac Ynysawdre gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Pen-y-bont a Gorllewin Morgannwg yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Ogwr a Phort Talbot;**
- (2). **dylai wardiau etholiadol Baglan, Aberafan, Gorllewin Sandfields a Dwyrain Sandfields gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Ogwr a Phort Talbot yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Castell-nedd ac Aberafan;**
- (3). **dylai wardiau etholiadol Bryn a Chwmafan, Y Cymer, Gwynfi a Glyncorrwg gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd ac Aberafan yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Ogwr a Phort Talbot;**
- (4). **dylai wardiau etholiadol Gorllewin Coed-ffranc, Gogledd Coed-ffranc a Choed-ffranc Ganol gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd ac Aberafan yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe;**
- (5). **dylai ward etholiadol Cwmbwrla gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe;**
- (6). **dylai wardiau etholiadol Lluchwr Isaf, Lluchwr Uchaf a Phontybrenin gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Llanelli a Lliw yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe;**
- (7). **dylai wardiau etholiadol Mawr, Llangyfelach a Phenlle'r-gaer gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Llanelli a Lliw;**

(8). dylai wardiau etholiadol Cydweli a Thycroes gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Caerfyrddin yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Llanelli a Lliw.

- 3.51.** Edrychwn yn gyntaf ar etholaeth arfaethedig Ogwr a Phort Talbot. Rydym yn argymhell y dylai wardiau etholiadol Abercynffig, Cefn Cribwr ac Ynysawdre gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg, oherwydd y mae gan y wardiau hynny gysylltiadau cymdeithasol ac economaidd lleol â Phen-y-bont ar Ogwr (gweler cynrychiolaeth 7914), yr ydym o'r farn na ddylid eu torri, ac oherwydd bod y symud argymelledig yn caniatáu trefniant gwell ar yfer etholaeth arfaethedig Ogwr a Phort Talbot trwy osgoi gwahanu Aberafan a Phort Talbot, a chadw'r ddwy etholaeth o fewn yr amrediad etholwyr statudol.
- 3.52.** Cafwyd corff cryf iawn o gynrychiolaethau yn y gwrandawiadau ac yn ysgrifenedig yn datgan y byddai'r Cynigion Cychwynnol yn rhannu tref Port Talbot yn ddwy ran, a bod ardal Port Talbot ac Aberafan yn ffurfio un gymuned am resymau hanesyddol, cymdeithasol ac economaidd, ac na ddylid ei rhannu rhwng dwy etholaeth (gweler, er enghraifft, cynrychiolaethau 7700, 7705, 7742, 7762, 7774, 7810, 7881, 8116 – ynghyd â deiseb â 537 o lofnodion – 8225, 8347 ac 8469). Rydym yn fodlon, o'r dystiolaeth hon, y byddai'r newidiadau arfaethedig yn y Cynigion Cychwynnol yn torri cysylltiadau lleol yn ddiangen, a nod ein hargymhellion yw osgoi'r canlyniad hwnnw. Felly, rydym yn argymhell y dylid cynnwys wardiau etholiadol Baglan, Aberafan, Dwyrain Sandfields a Gorllewin Sandfields yn etholaeth arfaethedig Ogwr a Phort Talbot, yn hytrach nag yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd ac Aberafan. Yn ei dro, ac er mwyn sicrhau bod pob etholaeth o fewn yr amrediad etholwyr statudol, rydym yn argymhell y dylid cynnwys Bryn a Chwmafan, Y Cymer, Glyncorwg a Gwynfi yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd, y mae ganddynt gysylltiadau lleol â hi, yn hytrach nag yn etholaeth arfaethedig Ogwr a Phort Talbot.
- 3.53.** O ran etholaeth arfaethedig Castell-nedd, eto cafwyd nifer fawr iawn o gynrychiolaethau yn y gwrandawiadau ac yn ysgrifenedig, a oedd yn datgan bod wardiau Coed-ffranc, sy'n ffurfio tref Sgiwen yn bennaf, yn edrych tua Chastell-nedd ar gyfer eu hanghenion siopa, cymdeithasol ac economaidd, yn hytrach na thuag Abertawe (gweler, er enghraifft, 7704, 7713, 7746, 8116, 8120, 8243, 8253 8293, 8308 ac 8504). Mae'r wardiau hyn yn Sgiwen yn ardal awdurdod unedol Castell-nedd Port Talbot. Felly, rydym yn argymhell y dylid cynnwys wardiau etholiadol Gogledd Coed-ffranc, Coed-ffranc Ganol a Gorllewin Coed-ffranc yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe.
- 3.54.** Yn ogystal â thynnu wardiau Coed-ffranc o etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe, rydym yn argymhell y dylid cynnwys ward etholiadol Cwmbwrla yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe, y mae ganddi gysylltiadau lleol â hi, yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe, ac er mwyn sicrhau bod pob un o'r etholaethau'n aros o fewn yr amrediad etholwyr statudol (gweler cefnogaeth Democratiaid Rhyddfrydol Abertawe a Gŵyr ar gyfer y symudiad hwn yng nghynrychiolaeth 8180).
- 3.55.** Mae'r Cynigion Cychwynnol yn cynnwys wardiau etholiadol Gorseinon, Penyrheol, Llangyfelach, Penlle'r-gaer a Phontarddulais yn etholaeth arfaethedig Llanelli a Lliw.

Mae'r wardiau etholiadol hyn yn etholaeth bresennol Gower. Mae'r Cynigion Cychwynnol yn cynnwys wardiau etholiadol Llwchwr Isaf, Llwchwr Uchaf a Phontybrenin yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe. Maent yn etholaeth bresennol Gower. Rydym wedi derbyn cynrychiolaethau sydd, yn ein barn ni, yn dangos bod cysylltiadau rhwng wardiau etholiadol Llwchwr Isaf, Llwchwr Uchaf a Phontybrenin, a wardiau etholiadol Gorseinon a Phenyrheol. Y dystiolaeth a dderbyniwyd gennym yw bod y pum ward etholiadol hyn yn ffurfio un gymuned mewn ardal drefol unigol, a bod cysylltiadau trafndiaeth rhwng Llwchwr a Phontybrenin, a Gorseinon a Phenyrheol (gweler y cynrychiolaethau a wnaed yn y gwrandawiaid cyhoeddus yng Nghaerfyrddin ac, er enghraifft, cynrychiolaethau 7748, 7752, 7756, 7771, 7799, 7817, 7910, 7975, 8018 ac 8180). Trwy roi dwy o'r wardiau etholiadol hyn yn etholaeth arfaethedig Llanelli a Lliw, a thair ohonynt yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe, mae'r Cynigion Cychwynnol yn torri'r cysylltiadau lleol rhwng y pum ward etholiadol hyn. Felly, rydym yn argymhell y dylid cynnwys wardiau etholiadol Llwchwr Isaf, Llwchwr Uchaf a Phontybrenin yn etholaeth arfaethedig Llanelli a Lliw, ynghyd â wardiau etholiadol Gorseinon a Phenyrheol.

- 3.56.** Rydym hefyd wedi derbyn cynrychiolaethau sy'n datgan bod gan wardiau etholiadol Llangyfelach a Phenlle'r-gaer gysylltiadau â wardiau etholiadol Treforys a Mynyddbach, sy'n ffurfio rhan o etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe. Mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd gennym yn nodi bod trigolion Llangyfelach a Phenlle'r-gaer yn edrych tua Threforys a dinas Abertawe ar gyfer gwaith a gwasanaethau, a bod cysylltiadau trafndiaeth rhwng Llangyfelach ac ardaloedd yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe (gweler y dystiolaeth o'r gwrandawiad cyhoeddus ac, er enghraifft, cynrychiolaeth 79, 466 a 476). Rydym o'r farn y dylid cynnwys wardiau etholiadol Llangyfelach a Phenlle'r-gaer yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Llanelli a Lliw, er mwyn osgoi newidiadau a fyddai'n torri'r cysylltiadau lleol presennol rhwng y wardiau etholiadol hyn.
- 3.57.** Mae Mawr yn ward wledig eang yng nghornel ogledd-orllewinol ardal Cyngor Dinas a Sir Abertawe. Mae cysylltiadau trafndiaeth yn dilyn yr afonydd i Glydach neu Dreforys, felly mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn edrych tuag Abertawe ar gyfer gwasanaethau. Dyna lle mae'r cysylltiadau lleol (gweler, er enghraifft, cynrychiolaethau 7752, 7799, 7817, 8015, 8086 ac 8180). Felly, eto, rydym yn argymhell y dylid cynnwys ward etholiadol Mawr yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe, yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Llanelli a Lliw.
- 3.58.** Cawsom dystiolaeth bod y gymuned yn ward Tycroes yn byw yng ngogledd yr ardal, wedi ei gwahanu'n ffisegol oddi wrth Mawr i'r de-ddwyrain a'r Hendy i'r de, a bod ganddi gysylltiadau lleol â Saron a Rhydaman i'r gogledd yn etholaeth arfaethedig Caerfyrddin (gweler, er enghraifft, cynrychiolaethau 7822 ac 8090). Er y cydnabyddwn y byddai hyn yn ymrannu ardal Cyngor Cymuned, rydym yn argymhell y dylid cynnwys Tycroes yn etholaeth arfaethedig Caerfyrddin yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Llanelli a Lliw, yn unol â'r Cynigion Cychwynnol, er mwyn osgoi torri'r cysylltiadau lleol hynny.

- 3.59. Yn yr un modd, mae gan ward Cydweli gysylltiadau lleol agos ag etholaeth arfaethedig Caerfyrddin yn hytrach na wardiau etholiadol yn etholaeth arfaethedig Llanelli a Lliw, ac er mwyn sicrhau bod pob etholaeth arfaethedig o fewn yr amrediad etholwyr statudol, rydym yn argymhell y dylid cynnwys ward etholiadol Cydweli yn etholaeth arfaethedig Caerfyrddin.
- 3.60. Nid ydym yn argymhell unrhyw newidiadau eraill i etholaeth arfaethedig Caerfyrddin, heblaw ychwanegu Tycroes a Chydweili. Rydym yn fodlon, fel arall, y gellir cyfiawnhau'r Cynigion Cychwynnol yn llawn, a'u bod yn gadarn mewn perthynas â'r etholaeth arfaethedig hon.
- 3.61. Rydym yn fodlon bod etholaeth Llanelli a Lliw a argymhellir gennym, sy'n cynnwys wardiau etholiadol Llŵchwr Isaf, Llŵchwr Uchaf a Phontybrenin, ond nad yw'n cynnwys wardiau etholiadol Llangyfelach, Penlle'r-gaer, Mawr, Tycroes a Chydweili, yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r Cynigion Cychwynnol. Yn benodol, yn ein barn ni, mae ein newidiadau argymelledig yn osgoi torri cysylltiadau lleol presennol. Nodwn hefyd fod wardiau etholiadol Llangyfelach, Penlle'r-gaer a Mawr yn ardal awdurdod unedol Dinas a Sir Abertawe, a bod etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe i gyd yn cynnwys wardiau etholiadol o'r ardal honno.
- 3.62. Rydym hefyd wedi derbyn cynrychiolaethau (gweler, er enghraifft, 8016) sy'n datgan y dylai ward etholiadol Tre-gŵyr gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Llanelli a Lliw. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi derbyn nifer o gynrychiolaethau sy'n gwrthwynebu'r newid awgrymedig hwnnw (gweler, er enghraifft, 8038, 8180 ac 8428). Y dystiolaeth a dderbyniwyd gennym yw bod gan Dre-gŵyr gysylltiadau â gweddill Gŵyr o ran diwylliant, traddodiad, hanes ac ysgolion: gweler, er enghraifft, cynrychiolaethau 7955, 7954, 7973, 8104 ac 8038). Mae'n sefyll ar ochr ddeheuol aber Llŵchwr ac yn edrych i'r de tua Gŵyr, yn hytrach na thua'r gogledd dros yr aber i Lanelli. Rydym o'r farn bod y dystiolaeth a dderbyniwyd gennym yn dangos bod gan ward etholiadol Tre-gŵyr gysylltiadau â wardiau etholiadol eraill yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe, ac y byddai cynnwys ward etholiadol Tre-gŵyr yn etholaeth arfaethedig Llanelli a Lliw yn torri'r cysylltiadau presennol hynny. Felly, nid ydym yn argymhell y cyfryw newid, ac rydym o'r farn y dylid cynnwys ward etholiadol Tre-gŵyr yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe.
- 3.63. Cawsom gynrychiolaethau hefyd a oedd yn datgan y dylai ward Y Castell gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe, yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe (gweler, er enghraifft, cynrychiolaethau 7752, 7756 ac 8305), ond hefyd y dylai wardiau Townhill ac Uplands fod yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe (gweler, er enghraifft, cynrychiolaethau 8044, 8168, 8002 ac 8304), ynghyd â ward Y Castell. Fodd bynnag, rydym yn cytuno â Chynigion Cychwynnol y Comisiwn, fod cynnwys ward Y Castell yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe yn llunio etholaeth gydlynus mewn ardal drefol â chysylltiadau da sydd â chysylltiadau cymunedol clos. Nid yw'n bosibl ychwanegu'r wardiau etholiadol eraill at yr etholaeth arfaethedig honno heb ragori ar yr amrediad etholwyr statudol.

Y Prif Wrthgynigion

- 3.64.** Ystyriwn, yn fras, rai o'r prif wrthgynigion a oedd yn mynd i'r afael â'r etholaethau yn ardal de-orllewin Cymru. Mae gwrthgynigion y Blaid Lafur yn cynnig y dylai tair ward etholiadol Coed-ffranc aros yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe. Fodd bynnag, cawsom nifer o gynrychiolaethau yn datgan bod y wardiau hyn yn edrych tua Chastell-nedd, a bod ganddynt gysylltiadau lleol â Chastell-nedd. Felly, am y rhesymau a roddwn uchod, nid ydym yn derbyn y cynnig hwnnw. Mae gwrthgynigion y Blaid Lafur hefyd yn cynnig y dylai wardiau etholiadol Lluchwr Isaf, Lluchwr Uchaf a Phontybrenin gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Llanelli a Lliw, ac y gellid cynnwys wardiau etholiadol Llangyfelach, Penlle'r-gaer a Mawr yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe. Rydym yn cytuno â'r gwrthgynigion hynny am y rhesymau a roddwyd uchod. Byddai gwrthgynnig y Blaid Lafur hefyd yn cynnwys ward etholiadol Tre-gŵyr yn etholaeth arfaethedig Llanelli a Lliw. Fel y gwnaethom nodi uchod, rydym o'r farn bod gan ward etholiadol Tre-gŵyr gysylltiadau â wardiau etholiadol eraill yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe, a byddai'r cysylltiadau hynny'n cael eu torri pe byddai'r ward yn cael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Llanelli a Lliw. Yn ogystal, mae ward etholiadol Tre-gŵyr yn etholaeth bresennol Gower, ac yn awdurdod unedol Abertawe. Mae'r ffactorau hynny hefyd yn ategu'r farn bod cynnwys ward etholiadol Tre-gŵyr yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na gwrthgynnig y Blaid Lafur. Roedd y Blaid Lafur (a nifer o unigolion eraill) hefyd yn cynnig y dylid cynnwys ward etholiadol Y Castell yn etholaeth Gŵyr a Gorllewin Abertawe a argymhellwyd gennym. Fel yr esboniwyd uchod, o ystyried ein newidiadau argymelledig, byddai'r newid hwnnw ar ei ben ei hun yn golygu y byddai ein hetholaeth argymelledig yn rhagori ar yr amrediad etholwyr statudol. Ar ben hynny, nid ydym o'r farn bod afon Tawe yn gyfystyr â ffin naturiol rhwng Dwyrain a Gorllewin Abertawe mwyach. Am y rhesymau a roddir uchod, nid ydym yn derbyn y gwrthgynnig hwn. Mae'r Blaid Lafur yn cynnig cynnwys Cydweli yn etholaeth arfaethedig Caerfyrddin, ac rydym yn cytuno am y rhesymau a roddir uchod.
- 3.65.** Mae Ceidwadwyr Cymru yn cefnogi'r Cynigion Cychwynnol mewn perthynas ag etholaeth arfaethedig Ogwr a Phort Talbot, felly byddant yn gwahanu Port Talbot ac Aberafan. Nid ydym yn cefnogi'r gwahaniad hwnnw am y rhesymau a roddwyd gennym, ac rydym wedi gwneud ein hargymhellion i fynd i'r afael â'r mater hwnnw. Mae eu gwrthgynigion yn cynnwys wardiau etholiadol Coed-ffranc yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd ac Aberafan, oherwydd y cysylltiadau lleol rhwng yr ardal honno a Chastell-nedd, ac rydym yn cytuno â'r rhan honno o'u cynigion am y rhesymau a roddwyd gennym. Fodd bynnag, maent yn awgrymu y dylid tynnu wardiau etholiadol Cwmllynfell, Godre'r Graig, Gwauncaegurwen, Brynman Isaf, Pontardawe, Trebannws ac Ystalyfera o'r etholaeth arfaethedig honno ac, ynghyd â ward etholiadol Clydach o etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe, y dylid eu rhoi yn eu hetholaeth arfaethedig, sef Llanelli a Chwm Tawe. Nid ydym yn cytuno â'r gwrthgynnig hwnnw. Byddai eu hetholaeth awgrymedig yn ymestyn ar draws tri awdurdod lleol, a byddai cysylltiadau trafniadaeth gwael ar draws tri chwm. Bu wardiau Cwm Tawe yn rhan o etholaeth Castell-nedd ers amser maith, a gallant barhau'n rhan ohoni dan ein hargymhellion ni, a dylent wneud hynny o ystyried y

cysylltiadau lleol presennol. Maent yn cynnig, ar ôl tynnu tair ward etholiadol Coed-ffranc a ward Clydach o etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe, y dylid ychwanegu wardiau etholiadol Uplands a Townhill ati fel un etholaeth Abertawe. Fodd bynnag, rydym yn derbyn y dystiolaeth ger ein bron bod cysylltiadau cymdeithasol ac economaidd lleol rhwng Uplands a Sgeti yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe, a bod ganddynt ysgol uwchradd gyffredin y mae ei dalgylch yn ymestyn i'r wardiau ymhellach i'r gorllewin, a bod achos cryf dros gadw ward Y Castell gyda gweddill ardal SA1 ar draws yr afon. Felly, rydym yn gwrthod yr achos o blaid tynnu Townhill ac Uplands o etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe. O ran mater y cysylltiadau rhwng ardal Gorseinon ac ardal Lluchwr, mae'r Blaid Geidwadol yn cynnig y dylid cynnwys wardiau etholiadol perthnasol ardal Gorseinon yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe. Rydym o'r farn mai'r ymateb priodol i'r mater hwn yw argymhell y dylai wardiau etholiadol Lluchwr Isaf, Lluchwr Uchaf a Phontybrenin gael eu cynnig gyda wardiau Gorseinon yn etholaeth arfaethedig Llanelli a Lliw, am y rhesymau a roddwyd gennym. Y gwrthgynnig sy'n weddill gan y Blaid Geidwadol yw tynnu Cydweli a'i chynnwys yn etholaeth arfaethedig Caerfyrddin. Rydym yn cytuno â'r awgrym hwnnw am y rhesymau a roddwyd gennym. Ychwanegu ward etholiadol Cydweli yw'r unig wrthgynnig a wneir gan y Blaid Geidwadol mewn perthynas ag etholaeth arfaethedig Caerfyrddin, ac rydym yn cytuno â'r cynnig hwnnw.

- 3.66. Mae gwrthgynigion Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cynnig tynnu wardiau etholiadol Coed-ffranc o etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe a'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd ac Aberafan, fel yr ydym wedi argymhell am y rhesymau a amlinellir uchod; tynnu Cwmbwrla o etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe a'i chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe, eto fel yr ydym wedi argymhell am y rhesymau a amlinellir uchod; tynnu wardiau etholiadol Lluchwr Isaf, Lluchwr Uchaf a Phontybrenin o etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe a'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig Llanelli a Lliw, eto fel yr ydym wedi argymhell am y rhesymau a amlinellir uchod; a thynnu wardiau etholiadol Mawr, Llangyfelach a Phenlle'r-gaer o etholaeth arfaethedig Llanelli a Lliw a'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe, eto fel yr ydym wedi argymhell am a rhesymau a roddwyd gennym. Yr unig fater lle mae cynigion y Democratiaid Rhyddfrydol yn wahanol i argymhellion yr adroddiad hwn yw'r ateb i'r broblem o wahanu Port Talbot ac Aberafan mewn etholaethau gwahanol. Maent yn cytuno y dylid osgoi hynny, ond eu hateb yw cyfnewid wardiau etholiadol Dwyrain Sandfields, Gorllewin Sandfields, Baglan ac Aberafan yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd ac Aberafan am wardiau etholiadol Y Cymer, Glyncorrwg, Bryn a Chwmafan a Gwynfi yn etholaeth arfaethedig Ogwr a Phort Talbot. Er mwyn bodloni'r amrediad etholwyr perthnasol, mae angen tynnu wardiau etholiadol Cefn Cribwr a Llanhari o etholaeth arfaethedig Ogwr a Phort Talbot, a'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg ac etholaeth arfaethedig Rhondda a Llantrisant, yn ôl eu trefn. Rydym o'r farn mai ein cynigion ni sy'n mynd i'r afael â'r broblem o wahanu Port Talbot ac Aberafan orau, ac nad ydynt yn cynnwys newidiadau yr un mor radical â'r rhai a gynigir gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Mae eu hateb arfaethedig yn cynnwys chwilio am wardiau etholiadol i'w tynnu o etholaeth arfaethedig Ogwr a Phort Talbot i fodloni'r amrediad etholwyr yn unig, a heb unrhyw gysylltiadau lleol clir i gyfiawnhau symud

y wardiau etholiadol hynny o'r etholaeth arfaethedig. Nid ydym yn cytuno bod eu hateb yn fwy dymunol na'r hyn a gyflawnir gan ein hargymhellion ni.

- 3.67.** Mae cynigion Plaid Cymru ar gyfer de-orllewin Cymru wedi'u cyfyngu i gynnig y dylid tynnu ward etholiadol Tycroes o etholaeth arfaethedig Llanelli a Lliw, a'i chynnwys yn etholaeth arfaethedig Caerfyrddin oherwydd ei bod wedi'i lleoli y drws nesaf i Rydaman a bod ganddi gysylltiadau lleol â'r dref honno yn hytrach na Llanelli. Rydym yn cytuno ac wedi argymhell yn unol â hynny am y rheswm a roddwyd gennym.
- 3.68.** Cyflwynodd Plaid Lafur Etholaeth Aberafan, wedi'i chefnogi gan yr AS ar gyfer Aberafan, Mr Stephen Kinnock, wrthgynigion a oedd â goblygiadau eang ledled Cymru. Yn y bôn, roeddent yn dadlau y dylid trin cymunedau Baglan, Sandfields, Aberafan, Port Talbot, Tai-bach a Margam yn un endid economaidd na ddylid ei rannu. Byddai ein hargymhellion a amlinellir uchod, pe byddant yn cael eu dilyn, yn cadw'r cymunedau hynny gyda'i gilydd yn etholaeth arfaethedig Ogwr ac Aberafan. Roeddent hefyd o blaid y cynnig i symud wardiau etholiadol Coed-ffranc o etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe i etholaeth arfaethedig Castell-nedd. Eto, rydym wedi argymhell yn unol â hynny am y rhesymau a roddwyd gennym. Canfu ymarfer ymgynghori â thrigolion yr ardal yr hoffai 63% ohonynt weld dwy ward Llansawel yn cael eu cynnwys mewn etholaeth Castell-nedd. Mae'r Cynigion Cychwynnol eisoes yn cynnwys y ddwy ward hynny yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd ac Aberafan, a byddent yn aros yna pe byddai ein hargymhellion yn cael eu dilyn. Rydym o'r farn, felly, y byddai ein hargymhellion yn cyflawni'r prif amcanion a amlinellir yn y gwrthgynigion hyn. Fodd bynnag, mae'r gwrthgynigion yn mynd ymlaen i gynnig etholaeth newydd Aberafan, Llynfi a Phorthcawl, yn cynnwys wardiau o etholaethau presennol Aberavon, Ogmored a Bridgend, ac etholaeth newydd Castell-nedd yn cynnwys wardiau o etholaethau presennol Neath, Aberavon, Brecon and Radnorshire a Cynon Valley, ynghyd ag etholaeth newydd Pen-y-bont ac Ogwr yn cynnwys wardiau o etholaethau presennol Ogmored, Bridgend, Vale of Glamorgan a Phontypridd. Nid ydym o'r farn bod y problemau cydnabyddedig o beidio â gwahanu Port Talbot ac Aberafan ac osgoi cynnwys cymuned Sgiwen yn un o etholaethau Abertawe yn cyfiawnhau newidiadau mor radical i'r Cynigion Cychwynnol. Yn ein barn ni, mae ein hargymhellion yn mynd i'r afael â'r materion hynny'n briodol. Mae gan wardiau etholiadol Bryn a Chwmafan, Y Cymer, Glyncorwg a Gwynfi gysylltiadau lleol digonol â Chastell-nedd, ac maent o fewn ardal awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot. Felly, gellir cyfiawnhau eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd, ac mae hynny'n angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael â'r gwahaniad ym Mhort Talbot ac Aberafan wrth fodloni'r amrediad etholwyr statudol.

Gorllewin Cymru

- 3.69.** At ddibenion yr adroddiad hwn, mae gorllewin Cymru yn cynnwys ardaloedd awdurdodau unedol Ceredigion a Sir Benfro. Mae'r Cynigion Cychwynnol yn cynnig dwy etholaeth ar gyfer yr ardal hon, er bod etholaeth arfaethedig Ceredigion a Gogledd Sir Benfro yn cynnwys wardiau etholiadol Blaen Hafren a Llanidloes o Bowys, a wardiau etholiadol Cenarth a Llangeler o Sir Gaerfyrddin.

- 3.70. Roedd y prif fater o bryder a fynegwyd mewn perthynas â'r Cynigion Cychwynnol yn ymwneud â chynnwys Blaen Hafren a Llanidloes yn etholaeth arfaethedig Ceredigion a Gogledd Sir Benfro, a'r awgrym cysylltiedig o'u hamnewid am Fachynlleth, Glantwymyn a Llanbrynmair. Am y rhesymau a amlinellwyd eisoes dan y pennawd Canolbarth a Gogledd Cymru, rydym yn argymhell yn unol â hynny.
- 3.71. Roedd awgrymiadau eraill, er bod y gefnogaeth iddynt yn gyfyngedig, yn cynnwys ychwanegu Maenclochog (o Dde Sir Benfro), Llanfihangel-ar-arth (o Gaerfyrddin), a Llanybydder (o Gaerfyrddin) at Geredigion a Gogledd Sir Benfro, yn ogystal â thynnu Cenarth a Llangeler o Geredigion a Gogledd Sir Benfro a'u hychwanegu at Gaerfyrddin.
- 3.72. **Yn gryno, rydym yn argymhell y newidiadau canlynol i'r Cynigion Cychwynnol:**
- (1). **dylid cynnwys wardiau etholiadol Blaen Hafren a Llanidloes yn etholaeth arfaethedig Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn, yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Ceredigion a Gogledd Sir Benfro;**
 - (2). **dylid cynnwys wardiau etholiadol Machynlleth, Glantwymyn a Llanbrynmair yn etholaeth arfaethedig Ceredigion a Gogledd Sir Benfro, yn hytrach nag etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn.**
- 3.73. O ran Maenclochog, mae Ceidwadwyr Cymru yn nodi yn eu hymateb i'r ail gyfnod ymgynghori y cynigiwyd ei chynnwys yng Ngheredigion fel rhan o'r arolwg a ataliwyd, pan fu gwrthwynebiad sylweddol gan arwain at ei chynnwys yn Sir Benfro fel rhan o'r cynigion diwygiedig (cynrychiolaeth 8490). Ar ben hynny, nid oes angen ei chynnwys yng Ngheredigion a Gogledd Sir Benfro i fodloni'r terfynau statudol, ac nid ydym yn cefnogi'r awgrym. Cydnabyddwn fod cysylltiadau cymunedol rhwng y ddwy ochr i afon Teifi, fel y nodwyd, er enghraifft, gan Gyngor Sir Ceredigion (cynrychiolaeth 7981). Serch hynny, rhaid i ni ystyried ffiniau llywodraeth leol hefyd. Mae'r Cynigion Cychwynnol yn cyfeirio at y cysylltiadau agos iawn rhwng Castellnewydd Emlyn ac Adpar, i'r graddau bod cynnwys Cenarth a Llangeler, ond nid Llanfihangel-yr-arth a Llanybydder, yng Ngheredigion a Gogledd Sir Benfro yn taro cydbwysedd priodol, yn ein barn ni, ac yn bodloni'r cwota etholiadol.

Y Prif Wrthgynigion

- 3.74. Nid oes gan y Blaid Lafur unrhyw wrthgynnig mewn perthynas â chyfansoddiad yr etholaethau yn ardal gorllewin Cymru. Yr unig brif wrthgynnig sy'n mynd i'r afael â'r etholaethau yn yr ardal hon yw tynnu wardiau Llanidloes a Blaen Hafren o Geredigion a Gogledd Sir Benfro, a'u hamnewid am Fachynlleth, Llanbrynmair a Glantwymyn. Ymhlith eraill, caiff y gwrthgynnig hwn ei gefnogi gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, Plaid Cymru a Cheidwadwyr Cymru ac, am y rhesymau a roddwyd yn flaenorol, rydym yn argymhell y gwrthgynnig hwn.

Enwau

- 3.75. Rydym yn cydnabod bod enwau etholaethau yn bwysig am nifer o resymau. Yn aml, maent yn nodi'r ardaloedd daearyddol sydd wedi'u cynnwys mewn etholaeth a/neu maent yn adlewyrchu enwau hanesyddol. Yn ddefnyddiol, dylai'r enwau fod yn rhai y gall etholwyr uniaethu â nhw'n rhwydd. Rydym wedi derbyn nifer o gynrychiolaethau ynghylch enwau priodol ar gyfer yr etholaethau arfaethedig. Rydym yn argymhell y newidiadau canlynol i enwau 14 o'r etholaethau arfaethedig a amlinellwyd yn yr Adroddiad Cynigion Cychwynnol. Er hwylustod, rydym yn ymdrin â nhw yn y drefn y caiff yr etholaethau arfaethedig eu hamlinellu ym mhennod 6 yr adroddiad. Cydnabyddwn na fydd pawb yn cytuno â'n hargymhellion. Fodd bynnag, rydym wedi ceisio adlewyrchu polisi'r Comisiwn ar enwau, daearyddiaeth ardal benodol, ac wedi ystyried y cynrychiolaethau a dderbyniwyd gennym, hyd y gellir.
- 3.76. Awgrymwyd yng nghynrychiolaeth 8154, lle mae enw etholaeth yn cynnwys mwy nag un enw unigol, y gallai hepgor y cysyllteiriau "a" neu "ac" yn Gymraeg, ac "and" yn Saesneg, arwain at un enw dwyieithog. Dyfynnwyd yr enghraifft bresennol o etholaeth Dwyfor Meirionnydd i ategu hyn. Cefnogwyd yr awgrym gan yr Arglwydd Elis Thomas, AC presennol Dwyfor Meirionnydd, sydd hefyd yn gyn Gadeirydd hen Fwrdd yr Iaith Gymraeg (Trawsgrifiad Gwrandawriad Cyhoeddus Wrecsam, Diwrnod 1, tudalennau 35-36). Mae Comisiynydd y Gymraeg (cynrychiolaethau 7943 ac 8148) hefyd yn ffafrio osgoi defnyddio ffurfiau deuol. Rydym o'r farn bod teilyngdod i'r awgrym hwn ac rydym wedi'i fabwysiadu mewn achosion priodol.
- 3.77. Rydym yn argymhell y dylid enwi etholaeth arfaethedig ardal Ynys Môn a Bangor yn Ynys Môn Bangor. Bangor yw'r ganolfan boblogaeth fwyaf yn yr etholaeth arfaethedig, a chafwyd cynrychiolaethau yn datgan y dylai'r enw adlewyrchu hynny (gweler, er enghraifft, cynrychiolaethau 7925 ac 8432). Ymddengys yn briodol i ni fod enw'r etholaeth arfaethedig yn cydnabod Ynys Môn, sef ynys ar wahân sy'n darparu nifer fwyaf yr etholwyr, a Bangor, sef y ganolfan boblogaeth fwyaf. Cefnogir hyn gan Mr Albert Owen, yr AS presennol ar gyfer Ynys Môn, Ceidwadwyr Cymru a'r Blaid Lafur. Caiff yr enw Ynys Môn, yn debyg i Feirionnydd, ei adnabod yn ddigon da yn y ddwy iaith, a thrwy hepgor cysyllteiriau, rydym o'r farn y gallai'r etholaeth gael un enw dwyieithog. Felly, rydym yn argymhell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Ynys Môn Bangor**.
- 3.78. Oherwydd i ni argymhell tynnu holl wardiau Sir Ddinbych o etholaeth Gogledd Clwyd a Gwynedd, rydym yn argymhell y dylid rhoi'r enw Gwynedd i'r etholaeth arfaethedig. Cefnogir hyn gan Ms Liz Saville Roberts, yr AS presennol ar gyfer Dwyfor Meirionnydd, Plaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Felly, rydym yn argymhell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Gwynedd**.
- 3.79. Rydym yn argymhell y dylid rhoi'r enw Conwy Colwyn i etholaeth arfaethedig Arfordir Gogledd Cymru. Rydym wedi gwrthdroi'r drefn o'r Cynigion Cychwynnol i adlewyrchu confensiwn yr iaith Gymraeg o fynd o'r gogledd i'r de, ac o'r gorllewin i'r dwyrain, fel yr awgrymwyd gan gynrychiolaethau 7679 ac 8154. Ar ben hynny, mae hepgor cysyllteiriau unwaith eto yn arwain at enw dwyieithog ar yr etholaeth. Rydym yn argymhell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Conwy Colwyn**.

- 3.80. Rydym yn argymell y dylid rhoi'r enw Wrexham (Wrecsam) i etholaeth arfaethedig Wrecsam Maelor. Daw'r holl wardiau etholiadol o ardal awdurdod unedol Wrecsam. Rydym o'r farn bod yr enw Wrecsam yn adlewyrchu cyfansoddiad yr etholaeth yn briodol, a bod ychwanegu "Maelor" yn ddianghenraid. Cefnogir hyn gan Mr Ian Lucas, yr AS presennol ar gyfer Wrecsam, a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Felly, rydym yn argymell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Wrexham (Wrecsam)**.
- 3.81. Rydym yn argymell y dylid rhoi'r enw De Clwyd a Gogledd Maldwyn (South Clwyd and North Montgomeryshire) i etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn. Mae cynrychiolaeth 8154 yn nodi yn Gymraeg, naill ai Maldwyn neu Sir Drefaldwyn yw Montgomeryshire, ac mae'n awgrymu mabwysiadu'r cyntaf. Cefnogir hyn gan Blaid Cymru. Nid oes yr un ohonom wedi gweld y ffurf Sir Faldwyn yn cael ei defnyddio gynt, ac rydym o'r farn ei bod yn swnio braidd yn lletchwith. Felly, rydym yn argymell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **De Clwyd a Gogledd Maldwyn (South Clwyd and North Montgomeryshire)**.
- 3.82. Rydym yn argymell y dylid rhoi'r enw Rhondda Llantrisant i etholaeth arfaethedig Rhondda a Llantrisant. Mae hon yn enghraifft arall lle byddai hepgor cysyllteiriau yn arwain at enw dwyieithog ar yr etholaeth. Felly, rydym yn argymell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Rhondda Llantrisant**.
- 3.83. Rydym yn argymell y dylid rhoi'r enw Cardiff South West (De Orllewin Caerdydd) i etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd. Oherwydd i ni argymell tynnu wardiau Pentyrch, Radyr a Chreigiau/Sain Ffagan, nid ydym o'r farn bod Gorllewin Caerdydd yn disgrifio ardal ddaearyddol yr etholaeth yn gywir, ac mae De Orllewin Caerdydd yn fwy cywir yn hyn o beth. Cefnogir hyn gan Geidwadwyr Cymru. Felly, rydym yn argymell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Cardiff South West (De Orllewin Caerdydd)**.
- 3.84. Rydym yn argymell y dylid rhoi'r enw Cardiff South East (**De Dwyrain Caerdydd**) i etholaeth arfaethedig De a Dwyrain Caerdydd. Oherwydd i ni argymell tynnu ward Butetown, ymhlith wardiau eraill, rydym o'r farn bod De Ddwyrain Caerdydd yn disgrifio ardal ddaearyddol yr etholaeth yn well. Cefnogir hyn gan Geidwadwyr Cymru. Felly, rydym yn argymell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Cardiff South East (De Ddwyrain Caerdydd)**.
- 3.85. Oherwydd i ni argymell ychwanegu wardiau Baglan, Aberafan, Gorllewin Sandfields a Dwyrain Sandfields at etholaeth arfaethedig Ogwr a Phort Talbot, rydym yn argymell y dylid rhoi'r enw Ogmores and Aberavon (Ogwr ac Aberafan) i'r etholaeth. Fel y nodwyd gan Blaid Cymru, Aberafan yw enw Cymraeg Aberavon, yn hytrach nag Aberafon (Trawsgrifiad Gwrandawriad Cyhoeddus Caerfyrddin, Diwrnod 1, tudalen 25). Felly, rydym yn argymell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Ogmores and Aberavon (Ogwr ac Aberafan)**.
- 3.86. Oherwydd i ni argymell tynnu wardiau Baglan, Aberafan, Gorllewin Sandfields a Dwyrain Sandfields o etholaeth arfaethedig Castell-nedd ac Aberafan, rydym yn

argymell y dylid rhoi'r enw Castell Nedd i'r etholaeth. Cefnogir hyn gan Mr Stephen Kinnock, AS. Felly, rydym yn argymell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Neath (Castell-nedd)**.

- 3.87. Rydym yn argymell y dylid rhoi'r enw Llanelli Lliw i etholaeth arfaethedig Llanelli a Lliw. Mae hon yn enghraifft arall lle y byddai hepgor cysyllteiriau yn arwain at enw dwyieithog ar yr etholaeth. Felly, rydym yn argymell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Llanelli Lliw**.
- 3.88. Rydym yn argymell y dylid rhoi'r enw Caerfyrddin (Carmarthen) i etholaeth arfaethedig Caerfyrddin (Carmarthenshire). Caerfyrddin yw'r enw Cymraeg ar dref Carmarthen, a Carmarthenshire yw Sir Gaerfyrddin. O ystyried bod llawer o Sir Gaerfyrddin y tu allan i'r etholaeth arfaethedig, teimlwn mai Caerfyrddin a Carmarthen fyddai'n fwyaf priodol. Felly, rydym yn argymell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Caerfyrddin (Carmarthen)**.
- 3.89. Rydym yn argymell y dylid rhoi'r enw Pembrokeshire (Sir Benfro) i etholaeth arfaethedig De Sir Benfro. Cawsom nifer o gynrychiolaethau yn mynegi nag yw De Sir Benfro yn disgrifio ardal ddaearyddol yr etholaeth arfaethedig yn gywir (gweler, er enghraifft, cynrychiolaethau 7754, 7764 a 7990). Roedd yr awgrymiadau amgen yn cynnwys Canol a De Sir Benfro (er y bu gwrthwynebiad i'r awgrym hwnnw), De a Gorllewin Sir Benfro, Sir Benfro, a Penfro. Oherwydd bod yr etholaeth arfaethedig yn cynnwys y rhan fwyaf o Sir Benfro, rydym o'r farn mai dyna fyddai'r enw mwyaf priodol. Felly, rydym yn argymell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Pembrokeshire (Sir Benfro)**.
- 3.90. Rydym yn argymell y dylid rhoi'r enw Bae Ceredigion (Cardigan Bay) i etholaeth arfaethedig Ceredigion a Gogledd Sir Benfro. Byddai'r etholaeth hon, fel y'i cynigiwyd yn wreiddiol ac fel y'i haddaswyd gan ein hargymhellion, yn cynnwys rhai wardiau ym Mhowys a Sir Gaerfyrddin, yn ogystal â holl wardiau Ceredigion a rhai wardiau yn Sir Benfro. O ystyried y byddai ganddi arfordir sy'n cynnwys llawer o Fae Ceredigion, rydym o'r farn y byddai'r enw hwn yn un priodol a chryno i'w ddefnyddio. Felly, rydym yn argymell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Bae Ceredigion (Cardigan Bay)**.
- 3.91. Nid oes gennym unrhyw argymhellion mewn perthynas ag enwau Flint and Rhuddlan (Y Fflint a Rhuddlan), Alyn and Deeside (Alun a Glannau Dyfrdwy), Brecon, Radnor and Montgomery (Aberhonddau, Maesyfed a Threfaldwyn), Monmouthshire (Sir Fynwy), Newport (Casnewydd), Torfaen, Blaenau Gwent, Merthyr Tydfil and Rhymney (Merthyr Tudful a Rhymni, Caerphilly (Caerffili), Cynon Valley and Pontypridd (Cwm Cynon a Phontypridd), Cardiff North (Gogledd Caerdydd), Vale of Glamorgan East (Dwyrain Bro Morgannwg), Bridgend and Vale of Glamorgan West (Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg), Swansea East (Dwyrain Abertawe), a Gower and Swansea West (Gŵyr a Gorllewin Abertawe). Cawsom gynrychiolaethau yn ymwneud ag enwau rhai o'r etholaethau arfaethedig hyn ac rydym wedi eu hystyried. Yn y pen draw, rydym o'r farn bod yr enwau a gynigir yn y Cynigion Cychwynnol yr un mor briodol neu'n fwy priodol na'r rhai a gynigiwyd yn

y cynrychiolaethau a dderbyniwyd gennym. Felly, nid ydym yn argymhell unrhyw newidiadau i enwau'r 15 etholaeth arfaethedig hyn.

- 3.92.** Mae enwau rhai o'r etholaethau arfaethedig yn ddwyieithog, gan gynnwys trwy hepgor cysyllteiriau, ac mae gan rai ohonynt enwau Cymraeg a Saesneg yn unol â pholisi'r Comisiwn, fel yr amlinellwyd yn yr Adroddiad Cynigion Cychwynnol. Rydym eisoes wedi cyfeirio at gynrychiolaethau gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae hi'n ffafrio defnyddio enwau sy'n tynnu ar gyfoethogrwydd enwau traddodiadol Cymreig ac sy'n addas i'w defnyddio yn Gymraeg a Saesneg, gan osgoi defnyddio ffurfiau deuol felly. Nid oes gennym ragor o argymhellion ar y mater hwn, ond hoffwn dynnu sylw'r Comisiynwyr at y cynrychiolaethau a wnaed i ni.

Casgliad

- 3.93.** Rydym wedi argymhell yr hyn yr ydym yn ystyried yn newidiadau mawr neu sylweddol i gyfansoddiad 14 o'r etholaethau arfaethedig, a newidiadau mwy cyfyngedig i gyfansoddiad pedair o'r etholaethau arfaethedig. Nid ydym wedi argymhell unrhyw newidiadau i 11 o'r etholaethau arfaethedig. Rydym wedi argymhell newidiadau i enwau 14 o'r etholaethau. Mae'r etholaethau a argymhellwn, ynghyd â'r enwau a argymhellwn, i'w gweld yn nhrefn yr wyddor yn Atodiad A.

Llofnodwyd

Rhodri Price Lewis QC

Comisiynydd Cynorthwyol Arweiniol

Atodiad A: Etholaethau Arfaethedig yn ôl Wardiau Etholiadol a Nifer yr Etholwyr

1. Ynys Môn Bangor CC – 71,398 etholwyr

Wardiau etholiadol	Prif Gyngor	Etholwyr	Etholaeth bresennol
Bryn	CONWY	1,349	Aberconwy CC
Capel Ulo	CONWY	1,179	Aberconwy CC
Pandy	CONWY	1,433	Aberconwy CC
Pant-yr-Afon/Penmaenan	CONWY	2,119	Aberconwy CC
Arllechwedd	GWYNEDD	971	Arfon CC
Deiniol	GWYNEDD	496	Arfon CC
Dewi	GWYNEDD	1,098	Arfon CC
Garth	GWYNEDD	420	Arfon CC
Gerlan	GWYNEDD	1,559	Arfon CC
Glyder	GWYNEDD	1,139	Arfon CC
Hendre	GWYNEDD	835	Arfon CC
Hirael	GWYNEDD	881	Arfon CC
Marchog	GWYNEDD	1,446	Arfon CC
Menai (Bangor)	GWYNEDD	839	Arfon CC
Ogwen	GWYNEDD	1,556	Arfon CC
Pentir	GWYNEDD	1,636	Arfon CC
Tregarth a Mynydd Llandygai	GWYNEDD	1,531	Arfon CC
Y Felinheli	GWYNEDD	1,624	Arfon CC
Aethwy	SIR YNYS MÔN	4,906	Ynys Môn CC
Bro Aberffraw	SIR YNYS MÔN	2,882	Ynys Môn CC
Bro Rhosyr	SIR YNYS MÔN	3,626	Ynys Môn CC
Caergybi	SIR YNYS MÔN	4,874	Ynys Môn CC
Canolbarth Mon	SIR YNYS MÔN	6,146	Ynys Môn CC
Llifôn	SIR YNYS MÔN	3,963	Ynys Môn CC
Lligwy	SIR YNYS MÔN	4,621	Ynys Môn CC
Seiriol	SIR YNYS MÔN	4,407	Ynys Môn CC
Talybolion	SIR YNYS MÔN	4,430	Ynys Môn CC
Twrcelyn	SIR YNYS MÔN	5,229	Ynys Môn CC
Ynys Gybi	SIR YNYS MÔN	4,203	Ynys Môn CC

2. Gwynedd CC – 74,790 etholwyr

Wardiau etholiadol	Prif Gyngor	Etholwyr	Etholaeth bresennol
Bettws-y-Coed	CONWY	932	Aberconwy CC
Caerhun	CONWY	1,609	Aberconwy CC
Crwst	CONWY	1,583	Aberconwy CC
Eglwysbach	CONWY	1,195	Aberconwy CC
Gower	CONWY	887	Aberconwy CC
Trefriw	CONWY	1,022	Aberconwy CC
Uwch Conwy	CONWY	1,230	Aberconwy CC
Llangernyw	CONWY	1,147	Clwyd West CC
Uwchaled	CONWY	1,124	Clwyd West CC
Bethel	GWYNEDD	1,020	Arfon CC
Bontnewydd	GWYNEDD	824	Arfon CC
Cadnant	GWYNEDD	1,438	Arfon CC
Cwm-y-Glo	GWYNEDD	710	Arfon CC
Deiniolen	GWYNEDD	1,263	Arfon CC
Y Groeslon	GWYNEDD	1,246	Arfon CC
Llanberis	GWYNEDD	1,445	Arfon CC
Llanllyfni	GWYNEDD	892	Arfon CC
Llanrug	GWYNEDD	1,289	Arfon CC
Llanwnda	GWYNEDD	1,428	Arfon CC
Menai (Caernarfon)	GWYNEDD	1,671	Arfon CC

Wardiau etholiadol	Prif Gyngor	Etholwyr	Etholaeth bresennol
Peblig (Caernarfon)	GWYNEDD	1,344	Arfon CC
Penygroes	GWYNEDD	1,289	Arfon CC
Penisarwaun	GWYNEDD	1,293	Arfon CC
Seiont	GWYNEDD	2,079	Arfon CC
Tal-y-sarn	GWYNEDD	1,276	Arfon CC
Waunfawr	GWYNEDD	1,201	Arfon CC
Aberdaron	GWYNEDD	712	Dwyfor Meirionnydd CC
Aberdyfi	GWYNEDD	851	Dwyfor Meirionnydd CC
Abererch	GWYNEDD	971	Dwyfor Meirionnydd CC
Abermaw	GWYNEDD	1,468	Dwyfor Meirionnydd CC
Abersoch	GWYNEDD	510	Dwyfor Meirionnydd CC
Bala	GWYNEDD	1,290	Dwyfor Meirionnydd CC
Botwnnog	GWYNEDD	698	Dwyfor Meirionnydd CC
Bowydd a Rhiw	GWYNEDD	1,211	Dwyfor Meirionnydd CC
Brithdir a	GWYNEDD	1,080	Dwyfor Meirionnydd CC
Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltyd			
Bryn-crug/Llanfihangel	GWYNEDD	732	Dwyfor Meirionnydd CC
Clynnog	GWYNEDD	698	Dwyfor Meirionnydd CC
Corris/Mawddwy	GWYNEDD	917	Dwyfor Meirionnydd CC
Criccieth	GWYNEDD	1,263	Dwyfor Meirionnydd CC
Diffwys a Maenofferen	GWYNEDD	744	Dwyfor Meirionnydd CC
Dolbenmaen	GWYNEDD	888	Dwyfor Meirionnydd CC
Gogledd Dolgellau	GWYNEDD	862	Dwyfor Meirionnydd CC
De Dolgellau	GWYNEDD	992	Dwyfor Meirionnydd CC
Dyffryn Ardudwy	GWYNEDD	1,128	Dwyfor Meirionnydd CC
Efail-newydd/Buan	GWYNEDD	988	Dwyfor Meirionnydd CC
Harlech	GWYNEDD	1,419	Dwyfor Meirionnydd CC
Llanaelhaearn	GWYNEDD	1,121	Dwyfor Meirionnydd CC
Llanbedr	GWYNEDD	783	Dwyfor Meirionnydd CC
Llanbedrog	GWYNEDD	733	Dwyfor Meirionnydd CC
Llandderfel	GWYNEDD	1,090	Dwyfor Meirionnydd CC
Llanengan	GWYNEDD	802	Dwyfor Meirionnydd CC
Llangelynin	GWYNEDD	1,505	Dwyfor Meirionnydd CC
Llanuwchllyn	GWYNEDD	673	Dwyfor Meirionnydd CC
Llanystumdwy	GWYNEDD	1,452	Dwyfor Meirionnydd CC
Morfa Nefyn	GWYNEDD	880	Dwyfor Meirionnydd CC
Nefyn	GWYNEDD	952	Dwyfor Meirionnydd CC
Penrhyndeudraeth	GWYNEDD	1,718	Dwyfor Meirionnydd CC
Dwyrain Porthmadog	GWYNEDD	1,076	Dwyfor Meirionnydd CC
Gorllewin Porthmadog	GWYNEDD	1,193	Dwyfor Meirionnydd CC
Porthmadog-Tremadog	GWYNEDD	918	Dwyfor Meirionnydd CC
Gorllewin Pwllheli	GWYNEDD	1,407	Dwyfor Meirionnydd CC
De Pwllheli	GWYNEDD	1,218	Dwyfor Meirionnydd CC
Teigl	GWYNEDD	1,321	Dwyfor Meirionnydd CC
Trawsfynydd	GWYNEDD	1,070	Dwyfor Meirionnydd CC
Tudweiliog	GWYNEDD	661	Dwyfor Meirionnydd CC
Tywyn	GWYNEDD	2,358	Dwyfor Meirionnydd CC

3. Conwy Colwyn CC – 77,613 etholwyr

Wardiau etholiadol	Prif Gyngor	Etholwyr	Etholaeth bresennol
Conwy	CONWY	3,227	Aberconwy CC
Craig-y-Don	CONWY	2,801	Aberconwy CC
Deganwy	CONWY	3,235	Aberconwy CC
Gogarth	CONWY	2,829	Aberconwy CC
Llansanffraid	CONWY	1,807	Aberconwy CC
Marl	CONWY	3,500	Aberconwy CC
Mostyn	CONWY	2,751	Aberconwy CC
Penrhyn	CONWY	3,784	Aberconwy CC
Pensarn	CONWY	2,075	Aberconwy CC
Tudno	CONWY	3,606	Aberconwy CC
Abergele Pensarn	CONWY	1,905	Clwyd West CC
Betws yn Rhos	CONWY	1,626	Clwyd West CC
Colwyn	CONWY	3,288	Clwyd West CC
Eirias	CONWY	2,749	Clwyd West CC
Gele	CONWY	3,784	Clwyd West CC
Glyn	CONWY	2,935	Clwyd West CC
Bae Cinmel	CONWY	4,506	Clwyd West CC
Llanddulas	CONWY	1,323	Clwyd West CC
Llandrillo yn Rhos	CONWY	6,032	Clwyd West CC
Llysfaen	CONWY	1,862	Clwyd West CC
Mochdre	CONWY	1,458	Clwyd West CC
Pentre Mawr	CONWY	2,747	Clwyd West CC
Rhiw	CONWY	4,909	Clwyd West CC
Tywyn	CONWY	1,842	Clwyd West CC
Bodelwyddan	SIR DDINBYCH	1,583	Vale of Clwyd CC
St. Asaph East	SIR DDINBYCH	1,375	Vale of Clwyd CC
St. Asaph West	SIR DDINBYCH	1,265	Vale of Clwyd CC
Trefnant	SIR DDINBYCH	1,496	Vale of Clwyd CC
Tremeirchion	SIR DDINBYCH	1,313	Vale of Clwyd CC

4. Flint and Rhuddlan (Fflint a Rhuddlan) CC – 75,548 etholwyr

Wardiau etholiadol	Prif Gyngor	Etholwyr	Etholaeth bresennol
Dyserth	SIR DDINBYCH	1,905	Vale of Clwyd CC
Canol Prestatyn	SIR DDINBYCH	2,814	Vale of Clwyd CC
Dwyrain Prestatyn	SIR DDINBYCH	3,219	Vale of Clwyd CC
Prestatyn Allt Melyd	SIR DDINBYCH	1,572	Vale of Clwyd CC
Gogledd Prestatyn	SIR DDINBYCH	4,691	Vale of Clwyd CC
De Orllewin Prestatyn	SIR DDINBYCH	2,848	Vale of Clwyd CC
Rhuddlan	SIR DDINBYCH	2,851	Vale of Clwyd CC
Dwyrain Y Rhyl	SIR DDINBYCH	3,684	Vale of Clwyd CC
De Ddwyrain Y Rhyl	SIR DDINBYCH	6,007	Vale of Clwyd CC
De Y Rhyl	SIR DDINBYCH	2,948	Vale of Clwyd CC
De Orllewin Y Rhyl	SIR DDINBYCH	3,736	Vale of Clwyd CC
Gorllewin Y Rhyl	SIR DDINBYCH	3,367	Vale of Clwyd CC
Dwyrain Bagillt	SIR Y FFLINT	1,420	Delyn CC
Gorllewin Bagillt	SIR Y FFLINT	1,559	Delyn CC
Brynfordd	SIR Y FFLINT	1,702	Delyn CC
Caerwys	SIR Y FFLINT	1,979	Delyn CC
Cilcain	SIR Y FFLINT	1,495	Delyn CC
Ffynnongroyw	SIR Y FFLINT	1,409	Delyn CC
Castell Y Fflint	SIR Y FFLINT	1,324	Delyn CC
Coleshill Y Fflint	SIR Y FFLINT	2,914	Delyn CC
Oakenholt Y Fflint	SIR Y FFLINT	2,026	Delyn CC
Trelawny Y Fflint	SIR Y FFLINT	2,645	Delyn CC
Maesglas	SIR Y FFLINT	1,965	Delyn CC
Gronant	SIR Y FFLINT	1,182	Delyn CC

Wardiau etholiadol	Prif Gyngor	Etholwyr	Etholaeth bresennol
Helygain	SIR Y FFLINT	1,395	Delyn CC
Canol Treffynnon	SIR Y FFLINT	1,389	Delyn CC
Dwyrain Treffynnon	SIR Y FFLINT	1,361	Delyn CC
Gorllewin Treffynnon	SIR Y FFLINT	1,766	Delyn CC
Mostyn	SIR Y FFLINT	1,413	Delyn CC
Llaneurgain	SIR Y FFLINT	2,439	Delyn CC
Northop Hall	SIR Y FFLINT	1,248	Delyn CC
Trelawnyd and Gwaenysgor	SIR Y FFLINT	1,451	Delyn CC
Chwitfordd	SIR Y FFLINT	1,824	Delyn CC

5. Alyn and Deeside (Alyn a Glannau Dyfrdwy) CC – 77,032 etholwyr

Wardiau etholiadol	Prif Gyngor	Etholwyr	Etholaeth bresennol
Aston	SIR Y FFLINT	2,440	Alyn and Deeside CC
Gogledd Ddwyrain Brychdyn	SIR Y FFLINT	1,660	Alyn and Deeside CC
De Brychdyn	SIR Y FFLINT	2,808	Alyn and Deeside CC
Dwyrain Bistre Bwcle	SIR Y FFLINT	2,596	Alyn and Deeside CC
Gorllewin Bistre Bwcle	SIR Y FFLINT	3,139	Alyn and Deeside CC
Mynydd Bwcle	SIR Y FFLINT	2,436	Alyn and Deeside CC
Pentrobin Bwcle	SIR Y FFLINT	3,956	Alyn and Deeside CC
Caergwrle	SIR Y FFLINT	1,157	Alyn and Deeside CC
Canol Cei Conna	SIR Y FFLINT	2,232	Alyn and Deeside CC
Cei Conna Golftyn	SIR Y FFLINT	3,662	Alyn and Deeside CC
De Cei Conna	SIR Y FFLINT	4,357	Alyn and Deeside CC
Cei Conna Gwepira	SIR Y FFLINT	1,591	Alyn and Deeside CC
Ewlo	SIR Y FFLINT	4,171	Alyn and Deeside CC
Penarlâg	SIR Y FFLINT	1,549	Alyn and Deeside CC
Kinnerton Uchaf	SIR Y FFLINT	1,283	Alyn and Deeside CC
Yr Hôb	SIR Y FFLINT	2,008	Alyn and Deeside CC
Llanfynydd	SIR Y FFLINT	1,391	Alyn and Deeside CC
Mancot	SIR Y FFLINT	2,582	Alyn and Deeside CC
Penyffordd	SIR Y FFLINT	3,283	Alyn and Deeside CC
Queensferry	SIR Y FFLINT	1,236	Alyn and Deeside CC
Saltney Cyffordd Yr Wyddgrug	SIR Y FFLINT	878	Alyn and Deeside CC
Saltney Stonebridge	SIR Y FFLINT	2,583	Alyn and Deeside CC
Sealand	SIR Y FFLINT	1,917	Alyn and Deeside CC
Dwyrain Shotton	SIR Y FFLINT	1,267	Alyn and Deeside CC
Shotton Uchaf r	SIR Y FFLINT	1,678	Alyn and Deeside CC
Gorllewin Shotton	SIR Y FFLINT	1,409	Alyn and Deeside CC
Treuddyn	SIR Y FFLINT	1,281	Alyn and Deeside CC
Argoed	SIR Y FFLINT	2,130	Delyn CC
Gwernaffield	SIR Y FFLINT	1,602	Delyn CC
Gwernymynydd	SIR Y FFLINT	1,371	Delyn CC
Coed Llai	SIR Y FFLINT	1,543	Delyn CC
Broncoed Yr Wyddgrug	SIR Y FFLINT	1,878	Delyn CC
Dwyrain Yr Wyddgrug	SIR Y FFLINT	1,491	Delyn CC
De Yr Wyddgrug	SIR Y FFLINT	2,155	Delyn CC
Gorllewin Yr Wyddgrug	SIR Y FFLINT	1,965	Delyn CC
New Brighton	SIR Y FFLINT	2,347	Delyn CC

6. Wrexham (Wrecsam) CC – 72,137 etholwyr

Wardiau etholiadol	Prif Gyngor	Etholwyr	Etholaeth bresennol
Bronington	WRECSAM	2,540	Clwyd South CC
Brymbo	WRECSAM	2,982	Clwyd South CC
Bryn Cefn	WRECSAM	1,482	Clwyd South CC
Coedpoeth	WRECSAM	3,482	Clwyd South CC
Esclusham	WRECSAM	2,023	Clwyd South CC
Gwenfro	WRECSAM	1,214	Clwyd South CC
Marchwail	WRECSAM	1,824	Clwyd South CC
Mwynglawdd	WRECSAM	1,843	Clwyd South CC
Brychdwn Newydd	WRECSAM	2,649	Clwyd South CC
Owrtyn	WRECSAM	2,601	Clwyd South CC
Acton	WRECSAM	2,141	Wrexham CC
Parc Borrás	WRECSAM	1,941	Wrexham CC
Brynyffynnon	WRECSAM	2,190	Wrexham CC
Cartrefle	WRECSAM	1,547	Wrexham CC
Erddig	WRECSAM	1,437	Wrexham CC
Garden Village	WRECSAM	1,614	Wrexham CC
Dwyrain a Gorllewin Gresffordd	WRECSAM	2,202	Wrexham CC
Grosvenor	WRECSAM	1,518	Wrexham CC
Dwyrain a De Gwersyllt	WRECSAM	3,599	Wrexham CC
Gogledd Gwersyllt	WRECSAM	1,967	Wrexham CC
Gorllewin Gwersyllt	WRECSAM	2,141	Wrexham CC
Hermitage	WRECSAM	1,549	Wrexham CC
Holt	WRECSAM	2,411	Wrexham CC
Little Acton	WRECSAM	1,812	Wrexham CC
Llai	WRECSAM	3,519	Wrexham CC
Maesydre	WRECSAM	1,402	Wrexham CC
Marford a Hoseley	WRECSAM	1,818	Wrexham CC
Offa	WRECSAM	1,383	Wrexham CC
Queensway	WRECSAM	1,436	Wrexham CC
Rhosnesni	WRECSAM	2,838	Wrexham CC
Rossett	WRECSAM	2,544	Wrexham CC
Smithfield	WRECSAM	1,364	Wrexham CC
Stansty	WRECSAM	1,631	Wrexham CC
Whitegate	WRECSAM	1,590	Wrexham CC
Wynnstay	WRECSAM	1,267	Wrexham CC
Y Cymuned Esclusham	WRECSAM	636	Clwyd South CC

7. De Clwyd a Gogledd Maldwyn (South Clwyd North Montgomeryshire) CC – 74,123 etholwyr

Wardiau etholiadol	Prif Gyngor	Etholwyr	Etholaeth bresennol
Llansannan	CONWY	1,470	Clwyd West CC
Corwen	SIR DDINBYCH	1,826	Clwyd South CC
Llandrillo	SIR DDINBYCH	930	Clwyd South CC
Llangollen	SIR DDINBYCH	3,319	Clwyd South CC
Efenechtyd	SIR DDINBYCH	1,316	Clwyd West CC
Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla	SIR DDINBYCH	1,978	Clwyd West CC
Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	SIR DDINBYCH	1,218	Clwyd West CC
Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	SIR DDINBYCH	1,793	Clwyd West CC
Llanrhaeadr-Yng-Nghinmeirch	SIR DDINBYCH	1,478	Clwyd West CC
Ruthun	SIR DDINBYCH	4,372	Clwyd West CC
Canol Dinbych	SIR DDINBYCH	1,567	Vale of Clwyd CC
Dinbych Isaf	SIR DDINBYCH	3,575	Vale of Clwyd CC
Dinbych Uchaf/Henllan	SIR DDINBYCH	2,371	Vale of Clwyd CC
Llandyrnog	SIR DDINBYCH	1,652	Vale of Clwyd CC
Banwy	POWYS	746	Montgomeryshire CC
Aberriw	POWYS	1,064	Montgomeryshire CC
Ffordun	POWYS	1,083	Montgomeryshire CC

Wardiau etholiadol	Prif Gyngor	Etholwyr	Etholaeth bresennol
Cegidfa	POWYS	1,799	Montgomeryshire CC
Llandrinio	POWYS	1,656	Montgomeryshire CC
Llandysilio	POWYS	1,387	Montgomeryshire CC
Llanfair Caereinion	POWYS	1,227	Montgomeryshire CC
Llanfihangel	POWYS	872	Montgomeryshire CC
Llanfyllin	POWYS	1,147	Montgomeryshire CC
Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin	POWYS	1,733	Montgomeryshire CC
Llansanffraid	POWYS	1,511	Montgomeryshire CC
Llanwddyn	POWYS	818	Montgomeryshire CC
Meifod	POWYS	1,040	Montgomeryshire CC
Trewern	POWYS	1,054	Montgomeryshire CC
Castell y Trallwng	POWYS	954	Montgomeryshire CC
Y Trallwng Gungrog	POWYS	1,772	Montgomeryshire CC
Y Trallwng Llannerch Hudol	POWYS	1,652	Montgomeryshire CC
Cefn	WRECSAM	3,709	Clwyd South CC
Gogledd y Waun	WRECSAM	1,811	Clwyd South CC
De'r Waun	WRECSAM	1,549	Clwyd South CC
Dyffryn Ceiriog/Ceiriog Valley	WRECSAM	1,670	Clwyd South CC
Johnstown	WRECSAM	2,415	Clwyd South CC
Llangollen Wledig	WRECSAM	1,578	Clwyd South CC
Pant	WRECSAM	1,534	Clwyd South CC
Pen-y-Cae a De Rhiwabon	WRECSAM	1,898	Clwyd South CC
Pen-y-cae	WRECSAM	1,479	Clwyd South CC
Plas Madoc	WRECSAM	1,198	Clwyd South CC
Rhiwabon	WRECSAM	2,071	Clwyd South CC
Y Cymuned Rhosllanerchrugog	WRECSAM	2,831	Clwyd South CC

8. Brecon, Radnor and Montgomery (Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn) CC – 73,820 etholwyr

Wardiau etholiadol	Prif Gyngor	Etholwyr	Etholaeth bresennol
Aber-Craf	POWYS	1,110	Brecon and Radnorshire CC
Bugeildy	POWYS	1,099	Brecon and Radnorshire CC
Bronllys	POWYS	957	Brecon and Radnorshire CC
Llanfair-ym-Muallt	POWYS	1,809	Brecon and Radnorshire CC
Bwlch	POWYS	774	Brecon and Radnorshire CC
Crucywel	POWYS	2,202	Brecon and Radnorshire CC
Cwm-Twrch	POWYS	1,486	Brecon and Radnorshire CC
Dyserth a Threcoed	POWYS	1,045	Brecon and Radnorshire CC
Felin-Fâch	POWYS	1,030	Brecon and Radnorshire CC
Clas-ar-Wy	POWYS	1,754	Brecon and Radnorshire CC
Gwernyfed	POWYS	1,163	Brecon and Radnorshire CC
Y Gelli	POWYS	1,137	Brecon and Radnorshire CC
